


Fi'n Hollol, Carys Bloodyn

Llyfr Llafar
gyda
chôd QR



Lauren
Child

Addasiad
Elin Meek

IDREF WEN

Dyma fi, Carys Bloodyn.

Mae Mrs Prydderch – fy athrawes – eisiau i ni wneud prosiect llyfrau

sy'n swinio'n hollol ddiflas ... nes 'mod i'n darganfod bod gwobr go iawn. Dw i a fy ffrind hollol orau, Siriol Morris,

wir eisiau ennill ...

ond sut???

“Difyr dros ben.”

THE INDEPENDENT

“Digrifwch pur.

Di-ben-draw o ddoniol.”

THE FINANCIAL TIMES

“Llawn bywyd
a hwyl, a
gwych i'r
llygad.”

THE BOOKSELLER

Cyhoeddwyd dan nawdd
Cynllun Cyhoeddiadau
Cyd-bwyllgor Addysg Cymru



Cam 13

Fi'n Hollol, Carys Bloodyn

Dydd Gwener


Dyma fi, Carys Blodyn.

Dw i ddim yn unig blentyn, ond weithiau byddwn i'n hoffi bod.

Mae chwech o bobl yn fy nheulu i, sy'n ormod weithiau.

Ddim o hyd, dim ond weithiau.

Mae Dad mewn swyddfa'r rhan fwyaf o'r amser yn ateb y ffôn ac yn dweud, "Alla i ddim siarad nawr, dw i at fy nghlustiau mewn gwaith."



Mae Mam yn cwyno trwy'r amser am bants ar y llawr a sgidiau ar y sofffa.

Mae'n dweud a dweud, "Dyw'r tŷ 'ma ddim yn ei lanhau ei hun, chi'n gwybod.

Pwy yn y byd rych chi'n meddwl sy'n gwneud popeth yn y lle 'ma?

Mr Neb?

Dw i ddim yn cael fy nhalu am godi eich sanau drewllyd chi o'r llawr! Taswn i'n cael arian am wneud, byddwn i'n werth ffortiwn," ac ati ac ati o hyd ac o hyd.

Fi yw'r trydydd hynaf yn y teulu a byddwn i wedi hoffi cael bod yr ifancaf yn y teulu hefyd.

Dw i ddim wir yn siŵr pam roedd Mam a Dad eisiau mwy o blant ar fy ôl i.

Doedd dim angen un arall, ac mae'n drueni achos mae hwnnw'n difetha popeth i bawb .

Ei enw yw Gwyn Llwyd ac mae e'n tueddu i fod yn **boendod** hollol.

Mae e'n cwyno a chwyno ac yn gwneud i bobl eraill fynd i helynt.





Byddet ti'n meddwl
y byddai'n braf
gallu dianc i'r ysgol,
ond mae'n amlwg
nad wyt ti'n adnabod
rhai o'r bobl yn fy nosbarth i.
Heb enwi neb,
hynny yw Efa Evans –
sôn am dynnu sylw ati ei hun!

Weithiau dw i'n sylu'n ddiflas i'r gwagle,
yn meddwl am ddim byd
yn hollol.

Mae hyn yn gwylltio Mrs Prydderch yn gacwn.
Dw i'n dân ar ei chroen hi.
Dw i'n gwybod hynny achos mae'n dweud fy
mod i o hyd ac o hyd.
A bod yn onest, nid Mrs Prydderch yw fy hoff
berson ar y Ddaear.
Ond, dw i'n dod o'r Ddaear a hi yw fy athrawes i.
Mae Mrs Prydderch yn dweud fy mod i'n
methu'n hollol â chanolbwyntio.
Dw i'n ceisio dangos ei bod hi'n anghywir drwy
geisio cofio canolbwyntio.
Dw i'n meddwl am y peth o hyd. Dw i'n trio
mor galed i beidio â pheidio canolbwyntio a dw
i'n dweud wrtho i fy hun,
'Paid â dechrau crwydro fel gwnest ti ddoe.'
Ac yna dw i'n dechrau meddwl am sut
dechreuais i grwydro ddoe a sut ro'n i'n meddwl
bod rhaid i mi wrando ar Mrs Prydderch a'r holl
bethau mae hi'n sôn wrtho i amdanyn nhw.

Ac yna dw i'n meddwl,
sut mae'r holl bethau mae hi'n sôn wrtho i amdany'n nhw
ffitio yn fy mhen?

Ac yna dw i'n meddwl tybed a ddylwn i ddechrau taffu'r holl
bethau nad oes mo'u hangen nhw arna i rhagor -
ti'n gwybod,
fel pan fuodd Dad yn clirio'r atig, ond
bod pawb arall wedi penderfynu bod
angen

popeth arnon ni
ac felly roedd rhaid iddo fe roi popeth 'nôl eto.

Ond efallai bod lle
pwysig yn cael ei lenwi yn
fy
mhen
gan y pethau sydd ddim yn bwysig a

dyna pam
dw i ddim
yn gallu

c a n o l b w y n t i o

achos bod yr holl le canolbwyntio
wedi cael ei lenwi
gan bethau fel,

'Cadw dy benelinoedd oddi ar y bwrdd',
a,

'Paid â phinsio dy frawd',
a

phethau
da-i-ddim
a dibwys
sydd

ddim yn bwysig.

"GARYS LODYN

Wnei
di
ddod
nôl
i lawr
i'r

8

Ddaearr eiliad hon!"

Mrs Prydderch sy 'na.

Mae'n
hawdd
ei
hadnabod
wrth
ei
llais
croch
fel
corn car.



Mae hi'n dweud,

“Carys Blodyn,
rwyf ti'n **hollol** brin o'r gallu i
ganolbwyntio.

Mae pryfyn bach cyffredin yn gallu
rhoi ei feddwl ar waith yn well!”

A dw i eisiau dweud,

“Rydych chi'n **hollol** brin o'r gallu i
fod yn gwrtais, Mrs Prydderch,
ac mae rheinosoros yn
ymddwyn yn well na chi.”

Ond dw i ddim yn dweud hynny achos mae gan Mrs Prydderch hawl i ddweud pethau cas amdana i a does gen i ddim hawl i ddweud pethau fel 'na 'nôl wrthi hi. Dyna reolau'r ysgol.

Yna mae Mrs Prydderch yn dweud, "Iawn, ddosbarth, dw i'n mynd i gyhoeddi testun cyffrous iawn cystadleuaeth diwrnod agored yr ysgol eleni." Dyw Mrs Prydderch ddim fel petai hi wedi cyffroi o gwbl ond dw i'n credu y byddai'n rhaid i eliffant redeg i'r ystafell ddosbarth yn chwifio ei freichiau dros bob man i wneud i Mrs Prydderch gyffroi. Beth bynnag, mae'n rhaid i bawb ddod o hyd i bartner a meddwl am arddangosfa i'w rhoi at ei gilydd a'i dangos pan fydd yr holl rieni'n dod i'r ysgol i weld gwaith eu plantos bach annwyl. Wrth gwrs, dw i a Siriol Morris yn dod at ein gilydd achos ein bod ni'n ffrindiau hollol orau. Mae Mrs Prydderch yn dweud bod rhaid i'r prosiect fod am lyfr rydyn ni wedi'i ddarllen a dysgu rhywbeth oddi wrtho.

Mae'n swnio'n **hollol ddiflas** i mi.
Ar ôl cyrraedd adre dw i'n mynd

yn syth lan llofft i'r cwpwrdd crasu.

Dw i'n mynd â chaws pitw gyda fi achos dyna fy hoff beth ar hyn o bryd a dwyt ti byth yn gwybod pryd y byddi di eisiau rhywbeth i'w gnoi.

Mae'r cwpwrdd crasu'n lle da i fod ar dy ben dy hun,

a dyna lle dw i'n hoffi darllen fy llyfr.

Mae angen tortsh ac yn ffodus fe ges i un yn anrheg Nadolig.

Roedd yn rhaid imi ofyn amdano a rhoi nodyn i fyny'r simnai i Siôn Corn.

Dw i ddim yn credu yn Siôn Corn ond mae Mam a Dad eisiau i mi wneud, felly dw i'n ysgrifennu ato fe beth bynnag.

Ysgrifennais i, 'Annwyl Siôn Corn, Os ydych chi'n berson go-iawn, plis gaf i dortsh, ac os nad ydych chi'n berson go-iawn, wel, plis wnewch chi gael rhywun arall i gael un i fi?'

Dw i'n credu ei bod hi'n bwysig cadw pob drws

ar agor,
achos dwyt ti byth yn gwybod beth sy'n wir
go-iawn y dyddiau hyn.
Mae Mam-gu'n dweud bod y byd yn lle llawn
dirgelwch, rhwng y dynion yn y gofod a phopeth.
Mae hi'n dweud, "Wedi'r cyfan, pwy feddyliai y
byddet ti'n gallu anfon llun at rywun i lawr y
ffôn, neu goginio coes oen mewn pum munud?"
Doeddwn i ddim yn arfer dwlu ar ddarllen; ond
digwyddodd hynny pan roddodd Mam-gu lyfr i mi
o'r enw **MERCH O'R ENW RHIAN** ac mae Mam yn dweud
mod i wedi troi'n llyfrbryf y funud honno.


Mae **MERCH O'R ENW RHIAN**

yn dod o gyfres gyfan o lyfrau
o'r enw **CASGLIAD RHIAN RHISIART**.

Mae Siriol Morris a fi'n dwlu arnyn nhw.
Maen nhw'n sôn am y ferch anhygoel 'ma –
mae hi'n rhyw fath o dditectif ond dim ond un
ar ddeg yw hi.

Does dim brodyr na chwiorydd gyda hi ac mae
hi'n mynd ar anturiaethau.

Y peth
mwyaf
cyffrous
dw i'n
wneud
yw mynd
i lawr
i'r
siop fach
ar fy
mhen
fy
hun.



Mae Rhian Rhisiart yn byw yn y tŷ rhyfeddol
'ma ac mae ei rhieni'n graig o arian ac mae
bwtler yn gofalu amdani a gwneud popeth drosti.

Ei enw yw Huws, achos dyna'i gyfenw fe.

Mae'n rhaid galw bwtleriaid wrth eu cyfenwau –
dyna'r drefn gyda bwtleriaid.

Mae Rhian Rhisiart yn mynd i'r ysgol mewn
hofrennydd weithiau, ac mae'r holl ddyfeisiau
'ma gyda hi.

Mae dillad ymarfer corff Rhian Rhisiart yn cŵl.

Mae sbring pwerus yn ei threinyrs fel y gall hi
neidio dros ei gelynion, ac mae propelor yn rhan o'i
gwisg nofio fel y gall hi nofio mor gyflym â macrell.

Mae llythyrau i Rhian ei hun yn dod yn y post –
meddylia!

Mae'r llythyrau i gyd yn ddiddorol ac yn hynod
gyfrinachol oddi wrth dditectifs eraill a phrif
weinidogion a phobl felly, ac maen nhw'n llawn
cliwiau mewn cod rhyfedd. Ond does neb byth
yn amau dim, achos pam dylen nhw wneud?

Dyna'r peth clyfra' am Rhian Rhisiart – does dim
angen iddi guddio oherwydd pwy fyddai'n disgwyl i
ferch ysgol fod yn un o ysbïwyr pennaf y wlad?

Neb, dyna pwy!

Dim ond adeg fy mhen-blwydd dw i'n cael post,
felly dw i wedi dechrau anfon am bethau.

Rwyf ti'n gallu cael pobl i anfon llawer o bethau
am ddim os wyt ti'n llenwi'r cwpon.

Post sbwriel mae Mam yn ei alw fe ond dw i'n
credu bod cael pethau yn y post yn ddiddorol,
hyd yn oed os mai dim ond sôn am ddillad isaf
cynnes maen nhw.

Mae Dad yn cael post gyda

PREIFAT

arno,

felly efallai ei fod e'n ysbïwr hefyd.

Ces i gip ar un o'r llythyrau yma unwaith ac
roedd llawer o rifau a dyddiadau a geiriau coch
yn dweud

NODYN ATGOFFA TERFYNOL.

Mae'r cyfan yn hollol amheus.

A pha ddiwrnod, dywedodd Dad,
'Efallai byddan nhw'n newid pethau o gwmpas
yn y gwaith', ac y bydd rhaid iddo fe
'neidio dros y clwydi',

os ydy e eisiau

'darn o'r deisen'.


Mae'n dweud, "Mae'r ceffylau blaen wedi bod
yn uchel eu cloch ac efallai bydd rhai pobl yn
gorfod mynd ar y clwt os nad

ydyn nhw'n cadw'u
trwynau ar y maen.

Ond dyna sut mae'r
rhod yn troi."

Dw i ddim yn siŵr am
beth roedd e'n siarad.

Mae Siriol Morris yn
dweud mae'n debyg
mai cod oedd e bron
yn bendant.



Mae Dad yn dweud, "Dw i'n dweud wrthot ti
nawr, taswn i'n ysbŵr, byddwn i'n mynd i ysbïo i
rywle heulog braf gyda thraeth hyfryd a dim ffôn."
Fel arfer mae'n rhaid i Dad gadw ffôn gyda fe
bob amser. Mae'n hollol angenrheidiol bod
modd cysylltu ag ef bob eiliad o'r dydd.

Byddai hi'n anodd iawn i mi fod yn ysbŵraig
achos mae fy nheulu i gyd bob amser yn stwffio
eu trwynau yn fy musnes preifat i ac mae
gwneud unrhyw beth yn gyfrinachol yn anhygoel
o amhosibl.


Mae Siriol yn dweud bod rhaid cael rhyw stori
esgus a dyfeisiau, sy'n edrych fel pethau bob dydd.
Fel h.y. er enghraifft, mae tostiwr Rhian Rhisiart
hefyd yn troi'n beiriant ffacs arbennig.

Ac o wasgu'r botwm i

l
a
w
r

mae neges gudd

yn cael ei throsglwyddo oddi wrth bennaeth Rhian
yn y pencadlys ac yn



ymddangos
ar y
tost.

Ac yna ar ôl i Rhian Rhisiart ddarllen y neges, fe all hi fwyta'r dystiolaeth fel na fydd neb byth yn ei gweld, h.y. y dystiolaeth.

Mae Siriol hefyd yn dweud, "Rhaid i ti fod yn llawn hyder fel nad oes neb yn amau dim."

Dyw rhieni Rhian yn gwybod dim byd yn hollol

am ei bywyd cudd fel ysbŵraig a ditectif sy'n datrys dirgelwch oherwydd dyw Rhian ddim yn rhoi cyfle iddyn nhw amau dim.

Weithiau, bydd Rhian newydd gyrraedd 'nôl o Rwsia neu rywle pan fydd ei rhieni'n dod i mewn i roi cusan nos da iddi.

Weithiau mae'n stwffio clustogau o dan y cwilt fel ei bod hi'n edrych fel petai hi'n cysgu, ond mewn gwirionedd mae hi rhyw bymtheg-ac-ychydig-o filoedd o filltiroedd i ffwrdd, nid yn gwisgo ei phyjamas o gwbl, ond mewn siaced flewog, ar lethr mynydd serth.

Dw i'n dweud wrth Siriol, "Fe geisiais i roi clustogau yn y gwely a dyw e ddim yn gweithio, ddim os yw dy fam fel fy un i ac yn dod i weld a wyt ti wedi glanhau dy ddannedd."

Dw i'n dweud, "Dw i ddim yn credu y byddai hyd yn oed Rhian Rhisiart yn gallu twyllo Mam."

Mae Siriol yn dweud, "Byddai Rhian Rhisiart yn chwistrellu arogl past dannedd yn ei hystafell, a byddai ei mam yn arogl'r gwynt mintys ffres ac yn

meddwl ei bod hi siŵr o fod wedi glanhau ei dannedd felly fyddai hi ddim yn ffwdanu mynd i weld.”

Wrth gwrs, mae'r cyfan mor syml!

O feddwl am y peth.

Yr unig beth arall mae'n rhaid ei gael os wyt ti'n mynd i fod yn ysbŵr yw ffôn.

Mae ffonau gyda Rhian Rhisiart ym mhob man – hyd yn oed yn yr ystafell ymolchi.

Weithiau mae Huws y bwtler yn eu cario nhw o gwmpas ar hambwrdd.

Mae un gan Siriol Morris yn ei hystafell.

Gofynnais i Dad a allwn i gael ffôn yn fy ystafell i. Buodd e'n chwerthin yn rhyfedd am bron i 9 munud.

Dyna'r peth am rieni Siriol, maen nhw wir yn neis.

Mae Mr a Mrs Morris bob amser yn dweud, “Galwa fi'n Myrddin,” a “Galwa fi'n Awel,” ac mae Siriol hyd yn oed yn eu galw nhw'n Myrddin ac Awel.

Maen nhw'n gadael i Siriol wneud fel mae hi'n dewis, wir, ac mae hi'n mynd i'r gwely pryd bynnag mae hi'n dewis.

Unig blentyn yw Siriol Morris.

Wel, unig blentyn bron â bod. Mae ganddi frawd o'r enw Iestyn sydd dros ugain oed.

Mae e'n byw mewn fflat ac mae cariad ganddo fe sy'n dod o Japan.

Mae gen i frawd ychydig yn hŷn na fi o'r enw Guto. Does dim llawer o bobl yn llwyddo i weld Guto achos fel arfer mae e yn ei ystafell ar ei ben ei hun. Mae ei ystafell yn llawn diflastod a drewdod rhyfedd.

Mae e'n cadw popeth ar y llawr a does dim hawl gan neb i dacluso.


Mae Mam yn dweud, “Dyna sut mae bechgyn yn eu harddegau yn ymddwyn – bydd e'n tyfu mas ohono fe ryw ddiwrnod.”

Dw i'n dweud, “Pryd?”

Mae Dad yn dweud, “Wythnos i Sul y pys.” Sy'n golygu y gallai'r cyfan gymryd amser.

Dydd Llun

Y llyfr am Rhian dw i'n ei ddarllen ar hyn o bryd yr eiliad hon yw **RHIAN RHISIART SY'N RHEOLI**. Mae'r llyfrau i gyd yn dechrau yr un fath:



Ar heol o'r enw
Lôn y Deri roedd tŷ
modern tu hwnt, yn
disgleirio'n wyn ac
yn wydr i gyd. Ac
yn y tŷ hwnnw
roedd merch fach
anarferol iawn yn
byw, merch Bryn a
Sara Rhisiart,
enwogion
cymdeithas.
Roedd Bryn a
Sara'n galw eu
merch fach yn
Rhian, ond i'r rhai
oedd yn gwybod,
Rhian Rhisiart oedd
hi – ysbŵraig a
ditectif datrys
dirgelwch.

Mae yna lun o'i thŷ a map o'r twneli dianc cudd.
Mae'r llyfrau bob amser yn dechrau'n hamddenol
braf, felly does gen ti ddim syniad beth sy'n aros
amdanat.

Roedd hi'n ddiwrnod hyfryd. Tynnodd Mrs Derfel y
llenni a dyma'r haul yn tasgu ar wyneb angylaidd Rhian
Rhisiart.

"Myffins neu Dost Ffrengig?" gofynnodd y wraig
oedd yn cadw tŷ ac yn meddwl amdani bob amser.

"Myffins," meddai Rhian yn gysglyd, gan stwffio ei
thraed i bâr o slippers anhygoel o flewog.

"Jawn, Miss Rhian. Fe af i i redeg bath i chi ... gan
bwyll nawr, does dim angen ichi ruthro."

Ti'n gweld, rwyf ti'n dechrau meddwl bod hwn
yn mynd i fod yn llyfr hollol ddiflas. Ond aros
di.

Roedd Rhian yn gwybod ei bod hi'n mynd i fod yn
ddiwrnod gwych. Roedd hi'n teimlo'n arbennig o dda
oherwydd ...

"Mae Mam yn dweud
bod yn well i ti ddod o'r gwely
nawr,

ac os wyt ti eisiau llaeth ar dy *Sugar Puffs*,
trueni mawr,

achos does dim ar ôl."

Dyna fy chwaer Lowri – mae'n hawdd dweud
achos ei bod hi mor anghwrtais.

Yn ôl Mam, pan oedd pawb yn cael eu siâr o
gwrteisi, mae'n rhaid bod Lowri yn y tŷ bach.

Mae'n rhaid i mi

hercian

i lawr


y grisiau

gan mai dim ond un slipersen sydd gyda fi. Fe
gladdodd ein ci ni, Blew, y llall yn yr ardd a does
dim syniad gyda ni lle mae hi.

Mae'n siŵr y bydd rhyw archeolegwyr yn dod o
hyd iddi mewn can mlynedd ac yn dweud ei bod
hi'n rhyfeddol ac yn ei rhoi i amgueddfa.



Ar ôl mynd i lawr y grisiau, mae'r
gegin yn llawn pobl â hwyliau
gwael arnyn nhw. Mae Lowri'n
gwrthod siarad â Mam, ac mae
Guto'n gwrthod siarad â Lowri. Dyw
Tad-cu ddim yn siarad â neb achos




dyw e ddim wedi troi ei
hearing aid ymlaen. Mae
Gwyn yn siarad â fi ond
byddai'n well gyda fi petai e

ddim. Mae Gwyn yn boendod ac mae'n rhaid i
mi ei ddioddef e'n cysgu yn fy ystafell.



Weithiau, pan fydda i eisiau ei gadw fe o'r
ystafell, dw i'n rhoi llwyth o bethau yn
erbyn y drws. Mae e'n bump.

Pwy sydd eisiau rhannu ystafell â brawd sy'n
bump oed? Does dim angen brawd pump



oed arna i, hyd yn oed. Mae un yn ei
arddegau gen i'n barod o'r enw
Guto ac mae hynny'n ddigon
o frodyr i unrhyw un.

Mae Gwyn yn holi, "Pa fis sy'n breffu?"

Dw i ddim yn ffwdanu gwranddo ar yr ateb achos
fydd e ddim yn ddoniol.

Dw i'n darllen cefn y pecyn grawnfwyd achos
maen nhw'n cynnig pensiliau â rwbwr ar eu
pennau nhw am bris da.

Mae Gwyn yn dweud, "Mis Meee-hefin!
Ti'n gweld? Ti'n gweld? Mis Meee-hefin!"


Dw i'n dweud, "Nadw."

Mae'n fy ngwthio i, sy'n gwneud imi arllwys fy
sudd oren dros fy siwmpwr i gyd.

Felly dw i'n troi croen ei fraich nes ei fod e'n llosgi.

Mae Mam yn dweud, "Rych
chi'ch dau fel ci a chath!

Carys, gwisg dy got a bant â ti
i'r ysgol ar unwaith, dim
chwarae o gwmpas. A choda dy
sanau, paid ag anghofio dy
frechdanau, a gyda llaw,
mae sudd oren dros
dy siwmpwr di i gyd."



Weithiau, os galla i, dw i'n darllen
fy llyfr wrth gerdded i'r ysgol.

Aeth Rhian i lawr ar y grisiau symud o'r gegin i'r
drws ffrynt.

"Wela i chi, Huws," galwodd ar y bwtler wrth iddi
gamu i'r limo du sgleiniog oedd yn disgwyl amdani.
Pwysodd Rhian fotwm y teledu, roedd hi'n hoffi gwyllo
ei hoff gartwnau cyn i'r diwrnod ysgol ddechrau.
Roedd hi'n mwynhau'r daith; doedd dim byd yn ei
phoeni ...

**"Carys Blodyn, Carys Blodyn!
Aros amdana i.
Dw i'n union y tu ôl i ti!"**

Y bachgen drws nesa sy 'na, Bleddyn Bifan. Dw
i'n ceisio ei anwybyddu e ac yn dal ati i ddarllen
fy llyfr.

"Erbyn meddwl," meddai Rhian wrth ei gyrrwr, "Mi
gerdda i heddiw."

Wedi'r cyfan, roedd hi'n ddiwrnod godidog ac o
gerdded, gallai alw heibio i'r siop fach a phrynu peth
o'r gwm cnoi roedd hi'n ei hoffi.

**"Carys Blodyn,
Dw i'n gwybod dy fod ti'n
gallu 'nghlywed i!"**

Bleddyn Bifan!

Mae'n fy ngwneud i'n hollol
benwan. Weithiau mae e'n eistedd ar y wal
yn disgwyl i mi wthio fy mhen trwy'r drws.
Dw i'n treulio hanner fy amser yn ceisio cael
gwared arno fe. Mae Mam yn dweud fy mod i'n
lwcus ac y dylwn i fod yn falch.

Mae hi'n dweud nad pawb sydd â rhywun sydd
eisiau bod gyda nhw cymaint fel eu bod nhw'n
eu dilyn nhw o gwmpas drwy'r dydd gwyn.

Dw i'n dweud bod croeso iddi ei gael e. Gall hi ei gael e'n sgipio y tu ôl iddi yn ei anorac – tybed pa mor lwcus bydd hi'n teimlo wedyn. Mae gan Rhian Rhisiart gymydog sy'n dipyn o boendod hefyd, ond mae e tua 70 oed ac felly dyw e ddim yn yr un dosbarth â hi yn yr ysgol, ond mae e bob amser yn stwffio ei drwyn i fusnes pobl eraill, felly mae'n debyg iawn i Bleddyn Bifan.

Gwthiodd Mr Puw ei drwyn trwy ddrws y ffrynt a ffroeni'n swnllyd.

"Plentyn y teulu Rhisiart sy 'na? Dw i wedi dweud wrthoch chi o'r blaen, cadwch draw o'r lawnt! Ydy eich rhieni chi'n gwybod ble rydych chi? Dylech chi fod yn yr ysgol. Dw i'n teimlo fel eu ffonio nhw fy hun.

Penderfynodd Rhian Rhisiart esgus nad oedd hi wedi clywed dim.

"Bore da, Mr Puw," galwodd Rhian yn hapus. "Sut mae'r hwyl heddiw?"


Roedd hyn bob amser yn gwylltio Mr Puw hyd yn oed yn fwy.

Dw i'n rhuthro i'r ysgol ac mae Siriol Morris yno'n barod ac mae hi'n gwisgo rhyw sgidiau ffansi rhyfedd sy'n dod o wlad bell.

Mae Siriol Morris yn teithio'r byd gyda'i mam a'i thad ac mae ffrindiau ganddyn nhw dros y byd i gyd, hyd yn oed yn China sydd filiynau ar filiynau o gilometrau a

milltiroedd i ffwrdd o fan hyn. Mae rhieni Siriol yn dweud ei

bod hi'n hanfodol i blentyn weld y byd er mwyn tyfu'n unigolyn crwn.



Maen nhw'n dweud mai teithio'r byd yw'r addysg orau y gallai plentyn ei chael, ac maen nhw'n hedfan Siriol i rywle ag eiliad o rybudd yn hollol.

Anarferol iawn.

Trueni na fasai Bleddyn Bifan yn mynd ar daith o gwmpas y byd.

Mae'n cerdded draw yn bwysig ata i a Siriol ac yn dweud, "Ydych chi wedi meddwl am syniad ar gyfer eich arddangosfa am lyfr eto achos fe ddylech chi achos bydd gwobr ddirgel am yr arddangosfa orau a bydd eich enwau chi'n cael eu hysgrifennu ar gwpan arian bychan sy'n mynd i'r cwpwrdd gwydr a bydd pawb yn ei weld e, mae'n dweud hynny ar y bwrdd a dw i a Bili Singh wedi meddwl am arddangosfa fydd wir yn dda a ni sy'n mynd i ennill."

Sydd, wrth gwrs, yn hollol annhebygol, o'u hadnabod nhw.

Mae Bleddyn Bifan a Bili Singh yn gwneud arddangosfa am ddinosoriaid.

Maen nhw'n dweud bod esgyrn dinosor cynhanes go-iawn gyda nhw, ond dw i'n gwybod mai esgyrn cyw iâr ar ôl cinio dydd Sul Bleddyn ydyn nhw. Dw i'n dweud, "Mae'r esgyrn 'na'n rhy fach i fod yn rhai dinosor."

Ac maen nhw'n dweud, "Rhaid dinosor pitw bach ydyn nhw."

Dw i'n dweud, "Doedd dim dinosoriaid pitw bach, cyw iâr yw e."

Maen nhw'n dweud, "Dinosor cyw iâr yw e."

Dw i'n dweud, "Dyna ddiddorol. Do'n i ddim yn gwybod y gallech chi brynu dinosoriaid yn yr archfarchnad."

Cofia di, mae ein meddyliau ni'n mynd ar ras.

Rydyn ni'n edrych ar gwpan bach yr enillwyr yn y cwpwrdd gwydr.

Rydyn ni wir eisiau ei ennill e, ac wrth gwrs does dim affliw o syniad yn ein pennau ni. Hefyd, rydyn ni'n meddwl tybed beth yw'r wobwrdd ddirgel.




Dw i'n meddwl efallai mai radio symud a siarad yw e ac mae Siriol yn meddwl mai un o'r camerâu yna sy'n rhoi'r lluniau ar unwaith fydd e.

Beth bynnag yw e,
rydyn ni eisiau ei ennill e.

Ar ôl yr ysgol, dw i'n mynd 'nôl i dŷ Siriol Morris, inni gael siarad am ein harddangosfa. Dw i'n dwlu mynd draw i dŷ'r Morrisiaid, mae wir yn hwyl, ac weithiau i swper fe gawn ni *twiglets* a diod o bop!

Fel arfer, mae Mr Morris-Galwa-Fi'n-Myrddin yn dweud, "Beth am fynd i'r *Wah Chung*." Sef bwyty Tsieinaidd - mae'n smart iawn gyda chadeiriau melfed porffor.




Dro arall mae'n gwneud swper o bethau sy'n digwydd bod yn y cwpwrdd - dim ond taten a chaws sy'n drewi.

Mae'r Morrisiaid yn byw mewn tŷ modern, yn union fel Rhian Rhisiart.

Mae'n rhaid dringo'r grisiau i'r gegin.

Mae'n
anhygoel.



Pan ei di i mewn, y peth cyntaf sy'n digwydd yw 'tynnu sgidiau a gwisgo sliperi arbennig'.

Dysgon nhw hynny yn Japan.

Dw i wedi dweud wrth Mam amdano fe.

Mae hi'n dweud, "Carys Blodyn! Sawl gwaith dw i wedi gofyn i ti dynnu dy sgidiau, ac wyt ti'n gwneud? Nac wyt!"

Mae'n wir,

ond mae'n rhyfedd achos yn nhŷ'r Morrisiaid, mae'n dipyn o hwyl.

Yn y pen draw dydyn ni ddim yn trafod cystadleuaeth y llyfr o gwbl achos allwn ni ddim peidio â siarad am Rhian Rhisiart.

Mae Siriol a fi wrthi fel lladd nadroedd yn darllen y gyfres i gyd.

Allwn ni ddim rhoi'r llyfrau i lawr. Ac ar ôl gorffen rydyn ni'n eu darllen nhw i gyd eto.

Dw i newydd gyrraedd y darn 'ma lle mae Rhian Rhisiart yn cynnig am swydd Llywydd y Dosbarth ac maen nhw'n cael etholiad yn yr ysgol i bleidleisio i'r person gorau.

Wrth gwrs, dyw Mrs Dafis, athrawes Rhian, ddim yn hapus ynglŷn â hyn achos dyw Rhian a Mrs Dafis ddim yn gweld lygad yn llygad. Ac, wrth gwrs, mae gan Rhian lawer o syniadau da am newid pethau, fel e.e. cael mwy o amser chwarae. Trueni nad oes mwy o lyfrau am Rhian. Dw i'n ystyried ysgrifennu at Haf E Madog Roberts sef yr awdur yn dweud y dylai hi ysgrifennu'n gynt. Mae Mrs Morris-Galwa-Fi'n Awel yn dweud, "Pam na wnewch chi? Mae awduron bob amser yn mwynhau clywed sut mae pobl eraill yn mwynhau eu llyfrau nhw."

Mae mam Siriol yn gwybod hyn achos awdures yw hi a dweud y gwir.

Mae hi'n mynd i lofnodi llyfrau dramor mewn gwlad arall ddydd Mercher.

Mae hi'n hollol enwog a gelli di brynu ei llyfrau hi mewn siopau llyfrau da.


Felly
rydyn ni'n
ysgrifennu:

Annwyl Haf E Madog Roberts,
 Rydyn ni'n darllen cyfres Rhian Rhisiart yn awyddgar iawn
 ac rydyn ni wedi darllen pob un ohonyn nhw o leiaf unwaith.

Hoffen ni wybod pryd mae llyfr nesaf Rhian Rhisiart yn dod a
 beth fydd ei enw e?

Hefyd, ar dudalen cant a 6, pen^{nod} wyth o

Rhed ar ras Rhian



pam nad aeth Probert, y dihiryn pen^{naf} 'nôl i wneud yn siŵr ei fod
 wedi cloi drws y seler?

A hefyd, ar dudalen 33 fe ddwedoch chi fod Rhian yn gwisgo ei
 sbectol ac wedyn yn nes ymlaen rydych chi'n dweud nad oedd hi'n
 gallu gweld yn dda achos doedd ei sbectol ddarllen dim ganddi

Gan edrych ymlaen yn fawr at eich ateb.

Siriol P Morris a Carys Blodyn

O.N. Rydyn ni'n meddwl y dylech chi ysgrifennu'n gynt.



Rydyn ni'n ysgrifennu dau lythyr, un yr un oddi wrthon ni'n dwy, rhag ofn i un fynd ar goll yn y post. Mae Awel yn rhoi stampiau i ni fel y gallwn ni eu postio nhw yfory.

Mae hi'n gofyn i ni beth rydyn ni'n ei wneud yn yr ysgol ac rydyn ni'n dweud wrthi am gystadleuaeth ddiflas y llyfr a'n bod ni eisiau ennill. Ac mae hi'n dweud, "Pam mae'n rhaid i chi ddewis llyfr diflas?"

Ac mae'n iawn, pam mae'n rhaid i ni? Ond dydyn ni ddim yn gallu meddwl am lyfr sy'n ddiddorol a hefyd yn dysgu rhywbeth inni.

Dydd Mawrth

Y diwrnod canlynol dw i'n poeni braidd achos dw i a Siriol Morris yn dal heb feddwl am lyfr i'r prosiect. Hefyd, dw i'n hwyr achos alla i ddim peidio â darllen **RHIAN RHISIART SY'N RHEOLI**.

Cerddodd Rhian yn hamddenol i mewn i'r ysgol, heb ffwdanu brysio. Wedi'r cyfan, roedd hi ugain munud yn

hwyr yn barod, felly pa wahaniaeth fyddai pump arall yn ei wneud? Byddai'n gallu meddwl am esgus, siŵr iawn. Roedd yn rhaid iddi fynd heibio i Mrs Gravelle, ysgrifenyddes yr ysgol, ond doedd hynny ddim yn anodd.

Doedd dim ateb gan Mrs Gravelle i esgusodion Rhian. Er bod yr ysgrifenyddes druan yn gwneud ei gorau glas, allai hi ddim cael Rhian i gyfaddef bod rhyw gynllun ganddi ar y gweill.

Mrs Dafis oedd y broblem. Doedd neb mor gadarn â Mrs Dafis. Roedd Mrs Dafis yn gwneud i'r afiach larll ap lorallt ymddangos fel cath fach.

Cerddodd Rhian yn falch i'r ystafell ddosbarth a disgyn yn swp wrth ei desg, gan bwyso 'nôl yn ei chadair. Ond er syndod mawr i Rhian Rhisiart, chafodd hi ddim pryd o dafod, ac yn lle hynny dyma Mrs Dafis yn gwenu'n gyfeillgar arni.

Roedd Mrs Dafis yn garedig! Doedd hynny ddim yn iawn rywsut.

Ac wrth i'r wers fynd yn ei blaen, sylweddolodd Rhian nad oedd hi'n cael ei diflasu! Roedd hi'n anodd credu bod gwersi Mrs Dafis yn unrhyw beth ond diflas.


Roedd rhyw ddrwg yn y caws yn rhywle.

Oedd Mrs Dafis wedi cael ei throï'n rhywun o'r blaned Mawrth? Neu oedd rhyw Mrs Dafis arall wedi cymryd ei lle hi?

Trueni nad yw Mrs Prydderch wedi cael ei throï'n rhywun o'r blaned Mawrth.

Yn gyntaf, mae hi'n edrych yn gas arna i am fod yn hwyr, ac yna mae'n dweud, "Gobeithio bod pawb wedi bod yn meddwl am lyfr ar gyfer eu prosiect. Byddai i'n dewis llyfr i unrhyw un sydd heb ddewis."

Mae'r geiriau hyn yn gyrru ias i lawr fy nghefn achos dw i'n gwybod pa fath o lyfr



byddai Mrs Prydderch yn ei ddewis.

Rhywbeth fel bywyd cudd malwoden, neu ddawnsio bale, neu falwod sy'n dawnsio bale. Mae Siriol a fi'n edrych ar ein gilydd a dw i'n gwneud stumiau sy'n golygu, 'help, beth wnawn ni?'

Ac mae hi'n gwneud stumiau sy'n golygu, 'sut dylwn i wybod?'

Dw i'n dechrau mynd i banig achos os na allwn ni feddwl am rywbeth bydd hi ar ben arnon ni ac fe gawn ni bryd o dafod ac yna bydd rhaid inni wneud un o syniadau diflas Mrs Prydderch. Pam nad yw Siriol Morris wedi meddwl am gynllun da?

Mae'n un dda am feddwl am bethau a fydd yn cadw Mrs Prydderch yn hapus.

Dyw hi byth yn hollol yn mynd i helynt. Mae'n wir!

Byth!

Mae fel petai Siriol wedi dod o dan hud yr hen Iarll ap Iorallt erchyll.

Mae fel y darn 'na yn **PWY ALL ACHUB RHIAN RHISIART?**
wrth i'r Iarll ap Iorallt geisio meddiannu meddwl
Rhian a dwyn ei syniadau da i gyd.

Mae'n gwneud hynny drwy wneud i'w lygaid droelli a
chyn iti wybod beth sy'n digwydd rwyd ti o dan ei hud.
Mae Mrs Prydderch yn mynd o gwmpas y
dosbarth – mae hi bron â 'nghyrraedd i.

Mae Anwen Tewdwr yn dweud ei bod hi'n
gwneud arddangosfa am yr hen amser achos ei
bod hi'n hoffi'r gorffennol.

Mae hi'n dweud ei bod hi'n mynd i wisgo hen,
hen wisg ac esgus ei bod hi'n byw ganrif yn ôl a
rhoi cyffug oes Fictoria i bawb. Fe gafodd hi'r
syniad o lyfr o'r enw *Oes Fictoria*.

Rhaid imi gyfaddef, trueni na feddyliais i am y
syniad 'na.

Ac mae Elis fy nghefnder a Siwan Wyn fy ffrind
yn dweud eu bod nhw'n gwneud eu prosiect am
lyfr o'r enw *Bwyd o Bedwar Ban* sef bwyd o bob
rhan o'r byd, ac maen nhw'n mynd i goginio'n
fyw fel rhan o'r arddangosfa.

Mae Mrs Prydderch ar fin dweud fy enw i ac fe
alla i deimlo fy stumog i'n corddi, ond wrth iddi
ddweud, "Carys Blodyn, am ba lyfr fydd eich
prosiect chi?" mae Mrs Morgan yn rhoi ei phen
o gwmpas y drws ac yn dweud, "Mrs Prydderch,
mae Mr Preis eisiau gair."

Ac ar y gair,

i ffwrdd â hi.

Ar ôl amser chwarae, mae Mrs Prydderch yn
chwythu bygythion am rywbeth neu'i gilydd.
Dylan Walters sydd ar fai, mae'n debyg.

Fe sydd ar fai fel arfer.

Dylan Walters yw'r bachgen mwyaf drygionus yn
yr ysgol ac mae e yn fy nosbarth i.

Mae e'n mynd i ryw helynt o leiaf unwaith y diwrnod.
Un tro fe aeth e i mewn i gwpwrdd y gofalwr a
dwyn arwyddion yn dweud

NID YW'R TŶ BACH HWN YN GWEITHIO!

Dyma fe'n eu gosod nhw ar y drysau i gyd, gan
gynnwys swyddfa Mr Preis.

Fe gafodd ei anfon adre.

Mae Mrs Morgan yn meddwl ei fod e'n orfywiog
ac na ddylai gael yfed diodydd llawn siwgr.
Mae Mrs Prydderch yn dweud nad oes esgus dros
ymddwyn yn wael a bod Dylan Walters yn

benderfynol o fod yn ddylanwad
drwg a difetha popeth i bawb
arall.

Clywais hi'n siarad â Mr
Griffiths, y gofalwr.

Meddai, "Ar y rhieni mae'r bai."

Ac meddai Mr Griffiths, "Dw
i'n cytuno'n llwyr â chi."

Mae Mrs Prydderch yn
dweud, "Mae'n ddrwg gen i
ddweud wrthoch chi fod
rhywun, heb enwi enwau,
rydych chi'n gwybod pwy
ydych chi, wedi bod yn
gwneud llanast cyn i'r ysgol
ddechrau ac wedi gwneud i

ddŵr orlifo yn nhoiledau'r bechgyn."

Dw i braidd yn nerfus rhag ofn mai fi yw e, er
nad ydw i hyd yn oed wedi bod yn nhoiledau'r
bechgyn, erioed.

Yn y pen draw rydyn ni'n cael gwybod mai
Dylan Walters oedd e a hefyd Tomos Howells.
Mae'n rhaid iddyn nhw fynd i weld Mr Preis a
dydyn nhw ddim yn dod 'nôl.


Pan ddaw hi'n amser mynd adref, dw i'n mynd
at y bachyn i wisgo fy nghot, ond mae rhywbeth
rhyfedd wedi digwydd i'r llewys ac mae zip arni
yn lle botymau. Mae'r un peth yn union wedi
digwydd i'r cotiau eraill.

Mae'r cotiau i gyd wedi symud i'r bachau
anghywir. Mae'n cymryd oesoedd i ddod o hyd
i f'un i. Tybed sut digwyddodd hyn – doedd
Dylan Walters ddim hyd yn oed yn yr ysgol y
prynhawn 'ma.

Sbwci.

Ar fy ffordd adref, rhaid imi aros i brynu rhai
pethau hanfodol, pecyn o greision yn bennaf.





Ond, pan dw i'n dod allan o'r
siop, mae Bleddyn Bifan yn
sefyll y tu allan.

Dw i yn hollol ddim eisiau
cerdded adref gyda fe, felly rhaid
i mi gerdded y ffordd hir. Yn
syth ar ôl dod i mewn drwy'r
drws ffrynt, dw i'n
dechrau sylwi bod
pethau'n rhyfedd a
bod rhywbeth o'i
le yn y lolfa. Yna
dw i'n sylweddoli ...
dyw'r teledu ddim
ymlaen a dyw Tad-cu
ddim yn ei gadair. Y peth
arall sydd ychydig yn
rhyfedd, dw i'n gallu clywed
sŵn iapian rhyfedd, neu ai
ielpan yw e? Dw i ddim
yn siŵr o ble mae'n dod.

Nid Blew yw e, beth bynnag, achos mae e ar fy
mhwys i fan hyn, yn bwyta'r pad nodiadau. Dw
i'n ceisio ei dynnu fe oddi wrtho fe achos dw i'n
gallu gweld ei fod e ar fin llyncu neges oddi wrth
rywun ond dw i ddim yn gwybod pwy.

Yr unig eiriau dw i'n gallu eu deall yw, 'dim amser i
ddweud wrthot ti, ond dw i'n mynd i Rw...'

Beth yn y byd yw e?

Pwy oedd heb amser i ddweud wrth bwy?
Ac i ble maen nhw'n mynd ar gymaint o frys?
Wrth imi geisio meddwl tybed beth i'w wneud
mae'r ffôn yn canu.


Mam sy 'na. Mae'n dweud, "Carys, wnei di
ddweud wrth dy frawd am roi'r swper yn y ffwrn."

Dw i'n dweud, "Dyna ryfedd. Dw i'n gallu
clywed rhywun yn iapian..."

Mae hi'n dweud, "Mrs Pritchard
...ddim fel yna! Fe wnewch chi
niwed i chi'ch hun ...Dw i'n dod!

Peidiwch â symud! Arhoswch lle rydych chi!"

Ac yna mae'r lein yn mynd yn farw.





Mae Mam yn gweithio yng nghanolfan yr henoed ac yn eu ddisgrifio i ddawnsio.

Mae hi'n dweud bod dawnsio'n gallu bod yn beryglus iawn os nad yw dy gluniau di cystal ag oedden nhw. Beth bynnag dw i'n nôl fy llyfr nodiadau bach ac yn ysgrifennu:

Digwyddiad rhyfedd iawn yn y llofa.
Dyna'r math o beth byddai Rhian Rhisiart yn ei ddweud. Tad-cu ar gol
a sŵn iapien, neu ielpan felle?

Dyw Mam ddim fel petai'n poeni am y peth.

Beth sy'n digwydd?

Dw i'n tanlinellu hynna sawl gwaith
oherwydd
dyna'r

cwestiwn
mawr.

Mae Guto'n llosgi'r swper yn grimp, ac mae'n blasu o losg ond dyw hynny ddim yn rhyfedd. Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw ei fod e'n edrych yn hapus! Fe ddweda i wrth Siriol Morris am y peth yfory.

Dydd Mercher

Yn syth ar ôl codi, dw i'n dechrau darllen eto. Dw i hyd yn oed yn darllen wrth fynd i lawr i gael brecwast.

Cerddodd Rhian Rhisiart yn hamddenol i'r gegin lle roedd Mrs Derfel wrthi'n brysur yn paratoi crempog. Roedd eu harogl nhw'n tynnu dŵr i'w dannedd ...

Mae Dad yn dweud, "Beth hoffet ti ei gael i frecwast?"


Dw i'n dweud, "Crempog."

Mae Dad yn dweud, "Os wyt ti eisiau crempog, fe gei di eu gwneud nhw dy hun."

Dw i'n dweud, "Iawn, fe wna i 'te."

Mae Mam yn dweud, "Does dim wyau ar ôl."

Fyddai Mrs Derfel byth heb
ddigon o wyau



Pan dw i'n cyrraedd yr ysgol, does dim sôn am Siriol Morris yn unman.

Tybed beth sydd wedi digwydd? Dyw hi byth, yn hollol, byth bythoedd amen yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol.

Dim ond yn anaml iawn.

Efallai bod brech yr ieir arni neu wres heintus.

Dyw Efa Evans ddim yma chwaith, hwrê!

Ond nid oes modd dianc rhag dweud wrth Mrs Prydderch beth fydd ein prosiect ni.

Dw i'n meddwl, 'Beth fyddai Rhian Rhisiart yn ei wneud mewn sefyllfa fel hon?'

Mae Rhian Rhisiart bob amser yn gallu meddwl am ateb cyflym pan fydd Mrs Dafis ar ei gwarthaf.

Byddai hi'n dweud rhywbeth fel hyn:

"Wel, Mrs Dafis, chi'n gweld, dyna lle ro'n i'n cerdded yn dawel yn meindio fy musnes, ac yn sydyn daeth llond lle o gathod gwyllt o rywle a rhuthro amdana i, ac wrth geisio dianc rhagddyn nhw fe gwympais i a bwrw fy mhen a nawr dw i'n dioddef o amnesia."

Sef anghofio dy gof.

"Felly, chi'n gweld, Mrs Dafis, alla i ddim dweud wrthoch chi pa lyfr bydda i'n ei ddefnyddio yn yr arddangosfa achos mae e wedi diflannu o 'meddwl i, ac os nad ydych chi'n fy nghredu i, galwch ein bwtler ni, Huws."

Ac yna fe allai Mrs Dafis ddweud, "Wel, Miss Rhisiart, falle y gwnaf i hynny, wir."

A phan fydd hi'n galw Huws mae e'n dweud, "Dyna chi, Mrs Dafis, mae arna i ofn mai dyna'n union ddigwyddodd."


Achos mae Huws bob amser yn cefnogi Rhian.

Byddai'n braf cael bwtler, ond mae Dad yn dweud bod bwtleriaid yn bethau drud iawn.

"Carys Blodyn! Am y trydydd tro, a'r tro olaf, a wnewch chi ateb fy nghwestiwn i, plîs!"

A chyn y galla i ddal fy nhafod, dw i'n dweud, "Ymm be...beth oedd y cwestiwn, Mrs Dafis?"

Mae Mrs Prydderch yn edrych arna i â llygaid bach pigog ac yn dweud, "Wel, *miss* fach, efallai bod hyn yn ormod i ti'i gofio, ond mae pawb arall yma'n gwybod mai fy enw i yw Mrs



P.R.Y.DD.E.R.CH.

Hynny yw, Prydderch."

Mae Mrs Prydderch yn dweud, "Y cwestiwn oedd, am ba lyfr fydd eich arddangosfa chi ac ydych chi'n mynd i gymryd rhan yn y gystadleuaeth?"

Dw i'n edrych i lawr ar fy nesg, yn syllu ar fy llyfr **RHIAN RHISIART SY'N RHEOLI** a dw i ar fin rhoi'r

esgus amnesia i Mrs Prydderch pan ddaw rhywbeth arall o fy ngheg i ar ddamwain. Dw i ddim wir yn bwriadu ei ddweud e, ond mae fel mae Rhian Rhisiart yn ei ddweud yn aml, "Weithiau mae'r ateb yn union o dan dy drwyn di. Ac weithiau rhaid cynnig ateb hyd yn oed os yw'r ateb damed bach yn anghywir."

Dw i'n dweud, "Ydyn, Mrs Prydderch, bydda i a Siriol Morris yn gwneud arddangosfa am Rhian Rhisiart – ysbŵraig a ditectif o fri."

Mae pawb yn syfrdan oherwydd bydden nhw wedi hoffi gallu meddwl am y peth.

Mae Mrs Prydderch yn syfrdan oherwydd dyw hi ddim yn meddwl ei fod e'n syniad da.

Dw i'n gwybod hyn achos mae ei cheg hi'n cau fel pwrs ac yna mae'n dweud, "Dw i ddim yn meddwl bod hynny'n syniad da iawn."

Mae hi'n dweud, "Beth yn union rych chi wedi'i ddysgu o'r llyfrau hyn?"

Ac wrth gwrs, dyna'r drwg; alla i ddim meddwl am unrhyw beth dw i wedi'i ddysgu o'u darllen

nhw ond dw i'n siŵr y bydd Siriol yn gallu. Dw i'n cerdded adre

wedi cynhyrfu'n hollol.

Roedd Rhian Rhisiart wrth ei bodd! Roedd hi wedi trechu Mrs Dafis. Wel, y tro yma beth bynnag.

Roedd Mrs Dafis yn benderfynol o rwystro ymdrech Rhian i fod yn Llywydd y Dosbarth a'i hatal rhag gwneud y newidiadau i'r wisg ysgol ac amser cinio – y pethau roedd pawb yn galw amdany'n nhw.

Ar ôl cyrraedd adre, dw i'n ffonio Siriol i ddweud y newyddion da wrthi hi ond does neb yn codi'r ffôn.

Dw i'n dechrau **poeni**.

Efallai bod y Morrisiaid i gyd yn sâl yn y gwely a brech yr ieir arny'n nhw.

Ond hyd yn oed petaen nhw, bydden nhw'n dal i allu ateb y ffôn achos mae ffonau ganddyn nhw yn eu hystafelloedd gwely rhag ofn bydd argyfwng fel brech yr ieir.

Dw i'n gallu clywed yr iapian 'na eto, ac mae'n dod o ystafell Tad-cu, a does dim dwywaith nad Blew yw e achos dyw Blew ddim yn iapian. Hefyd, mae Tad-cu wedi mynd ag e am dro, fe adawodd nodyn.

Dw i'n edrych drwy dwll y clo a dw i'n meddwl fy mod i'n gallu gweld rhywbeth yn symud ac nid ein cath ni, Fflwff sy 'na, achos mae hi'n union ar fy mhwys i.

Mae rhywbeth rhyfedd ar y gweill.


Dw i'n penderfynu cael cip sydyn yn ei ystafell ond yr eiliad honno dw i'n clywed Tad-cu'n agor y drws ffrynt, felly dw i'n codi'r ffôn yn gyflym ac yn esgus siarad â Mrs Stephens, ein cymydog. Dyna'n union y byddai Rhian Rhisiart yn ei wneud.

Yr unig broblem yw fod Tad-cu'n fy nghlywed i'n esgus siarad â Mrs Stephens – a gyda llaw, dw i ddim yn ei hoffi hi o gwbl – ac yna mae Tad-cu'n

gofyn imi ofyn iddi
a all e fenthyg basged sbâr i

gi am ryw reswm rhyfedd. Nawr, mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid imi ffonio Mrs Stephens yn arbennig, neu fel arall bydd e'n meddwl bod rhyw ddrwg yn y caws.

Dyw hynny byth yn digwydd i Rhian Rhisiart.




Yna dyma Tad-cu'n dweud, "Gyda llaw, ffoniodd dy ffrind Siriol y bore 'ma."

Dw i'n dweud yn eiddgar, "Wnaeth hi adael neges?"

Ac mae e'n dweud, "Soniodd hi rhywbeth am frysio. Allwn i ddim clywed beth arall ddwedodd hi achos bod y lein mor wael."

Brysio? Pam roedd Siriol Morris yn brysio?

Oedd rhywbeth yn rhedeg ar ei hôl hi?



Ar ôl swper, dw i'n awyddus i fynd 'nôl at fy llyfr. Alla i ddim eistedd a darllen yn y cwpwrdd crasu achos, yn rhyfedd iawn, mae fy nhortsh wedi mynd ar goll ac efallai wedi cael ei ddwyn. Yn lle hynny rhaid imi ddarllen yn fy ystafell. Ar hyn o bryd dw i'n darllen y darn hwn – mae'n gyffrous dros ben – dw i ar bigau'r drain yn hollol.

Disgynnodd y nos fel clogyn dros y ddinas. Doedd dim un seren i'w gweld yn disgleirio yn yr awyr. Roedd hi'n union fel petai dim awyr o gwbl.

Ti'n gweld, mae'n gyffrous yn barod:

Roedd Rhian Rhisiart yn gorwedd ar ei gwely, yn bwyta pítsa ac yn yfed cola. Doedd hi ddim wedi newid o'i dillad ysgol ac roedd hi'n dal i wisgo ei sgidiau ysgol trwm.

Byddai Mam yn mynd yn ddwl bared petawn i'n

gorwedd ar fy ngwely heb dynnu fy sgidiau.

Ar y teledu sgrin lydan diweddaraf roedd hoff sioe Rhian Rhisiart, 'Heddlu Hurt', gyda'r seren Dafydd Dryslwyn, y dyn mwyaf golygus ar y blaned, o bosib.

Dyma sŵn curo cwrtais ar y drws.

"Dewch i mewn," meddai Rhian, a'i cheg yn llawn o bitsa.

Agorodd y drws led y pen a llithrodd ei ffrind a'i bwtler ffyddlon, Huws, i mewn i'r ystafell.

Ar hambwrdd arian roedd ffôn pinc yn disgleirio. Dyma un yn unig o'r casgliad o ffonau oedd gan Rhian Rhisiart.

"Rhywun o'r enw Mr Probert i chi, Miss Rhisiart. Mae e'n mynnu siarad â chi."

Cododd Rhian ar ei heistedd yn sydyn. Cwmpodd y gwydraid o gola i'r llawr.

Cododd y ffôn ac meddai'n hollol ddiidaro, "Helo ers llawer dydd, Porcell. Ro'n i'n meddwl ella dy fod ti wedi ymddeol."

"Nac ydw wir, Miss Neis-neis," atebodd y llais uchel,

gwichlyd, oedd eto braidd yn sinistr.

"Felly beth wyt ti eisiau'r tro yma? Dw i ddim wir yn teimlo fel sgwrs, mae gen i bitsa fan hyn yn oeri."

"Paid â phoeni, chadwa i mohono! ti ...ro'n i'n meddwl falle yr hoffet ti wybod nad yw Dafydd Dryslwyn ar y teledu gymaint y dyddiau hyn achos ei fod e'n gweithio i ffrind i fi ... i rywun dwyt ti ddim yn rhy hoff ohono fe."

Ac ar hynny fe ddiflannodd y llais ar y lein.

'Na, byth!' meddyliodd Rhian. 'Ddim ...' Doedd hi ddim yn gallu meddwl am ei enw hyd yn oed. 'Does bosib y byddai Dafydd Dryslwyn yn gweithio i ... roedd y peth y tu hwnt i'w dychymyg! Amhosibl! Cwbl anghredadwy!'

Rhoddodd Rhian y ffôn i lawr a meddai, "Huws, bydd angen gêr nofio tanddwr arna i."

Dw i'n codi i ddiffodd y golau - a meddylia, dyna lle mae Tad-cu yn cerdded ar flaenau'i draed yn yr ardd yn ei slippers!

Mae fy nhortsh i gyda fe - y gwalch!

Ar ôl cyrraedd y sied mae'n agor y drws ac yn mynd i mewn.

Ydy e'n colli ei bwyll???

Neu oes ganddo

rywbeth ar y gweill?

Beth bynnag mae'n ei wneud, mae'n rhyfedd iawn, a dw i'n benderfynol o wybod beth yw e, os mai dyna'r peth olaf wna'i. Rhaid imi godi i gynnuau'r golau eto er mwyn imi ysgrifennu hynny yn fy llyfr nodiadau bach. Trueni nad oes peiriant tâp pitw bach gen i fel sydd gan Rhian Rhisiart - mae'n gwneud popeth yn llawer haws a does dim angen codi i gynnuau a diffodd y golau o hyd.

Ddydd Iau dw i'n mynd i'r clwb nofio.

Dw i ddim wir yn hoffi mynd - mae ychydig yn oer.

Dw i ond yn mynd achos bod pawb yn cael creision wedyn.

Dw i ddim yn nofio'n dda -

Alla i ddim plymio i nôl bricsen mewn pyjamas na dim.

Mae Siriol Morris yn gallu.

Dw i ddim yn siŵr pam mae angen dysgu sut i achub bricsen pan fyddi di'n gwisgo pyjamas achos fyddi di braidd byth yn gwisgo pyjamas pan fydd rhaid iti achub rhywbeth.

Mae e'n argyfwng anghyffredin iawn.

Mae gan Siriol Morris sbectol ddŵr a phopeth ac efallai bydd hi'n cystadlu yn y Gemau Olympaidd - mae bathodyn ganddi. Dim ond nofio fel ci bach mae Bleddyn Bifan yn gallu'i wneud.

Mae'n sbasio'n ddiddiwedd, ac weithiau mae e'n nofio a'i draed yn cerdded ar hyd y gwaelod.

Pan fydda i'n plymio mae'n edrych fel rhywun yn cwmpo gyda'i freichiau'n syth i fyny, ond mae'n gweithio. Mae Mr Richards yn dweud mai'r enw technegol ar fy arddull i yw belly-flop.

Mae Mr Richards braidd yn ddrwg ei hwyl

achos dyw Siriol Morris ddim yn yr ymarfer nofio

a hi yw gobaith mawr ein tîm ni.

Dw i innau braidd yn ddrwg fy hwyl achos dw i'n gweld eisiau Siriol Morris.

Does gen i

ddim syniad

lle mae hi.

Yr unig beth diddorol a ddigwyddodd heddiw oedd bod Dylan Walters yn rhedeg ar ôl Tomos Howells

o gwmpas y pwell,

yn ceisio tynnu ei drynys am dipyn o hwyl.

Ond yna dyma fe'n


Cw
ym
po

yn

y

pen

dwfn



a
dechrau

boddi

tamed bach

ac roedd rhaid i Mr Richards
daflu ei dreinyrs i ffwrdd

yn
gyflym
a phlymio

i mewn

yn ei drowsus byr!

A dyma fe'n dweud,

"Dyma pam mae rheol sy'n dweud

dim chwarae o gwmpas

yn y pwll nofio!"

A,

"Y tro nesaf efallai na fydd Dylan Walters

mor lwcus,

a bydd hi wedi canu arno."

Roedd y cyfan yn ddramatig iawn, ac ar ôl imi gyrraedd adre fe dynnais lun o Dylan Walters bron â boddi a'i anfon at Mam-gu – mae'n hoffi cael tipyn o hanes pawb.

Cyn mynd i'r gwely, dw i'n ceisio mynd i'r ystafell ymolchi sawl gwaith i lanhau fy nannedd.

Ond yn rhyfedd iawn mae rhywun yno bob tro.

Dw i'n penderfynu aros y tu allan, a darllen fy llyfr.

Gwthiodd Rhian ei hun am 'nôl oddi ar y cwch cyflym a phlymio i lawr o dan y dŵr du melfedaidd llonydd.

Roedd hi'n nofio'n gwbl ddiymdrech. Dim ond y swigod o'i hanadl oedd yn profi mai person oedd hi ac nid pysgodyn.

O'r diwedd gwelodd olau gwan... ffenestr.

Wrth iddi nesáu, dyma fynedfa siâp cylch yn llithro

ar agor a nofiodd Rhian yn dawel i mewn iddi.

Ar ôl mynd i mewn, dyma hi'n dringo ysgol o'r dŵr i mewn i ystafell wen ddisglair lle newidiodd o'i siwt wlyb i'w dillad sych.

Daeth llais ar yr intercom i'w chyfarch.

"Noswaith dda, Rhian. Mae bob amser yn hyfryd dy weld di, ond mae'n debyg nad galw heibio'n unig rwy'ti."

"Nage, fe allet ti ddweud bod angen help arna i. Mae pethau wedi mynd braidd yn rhyfedd yng Nghwm-coediog yn ddiweddar ac alla i ddim peidio â meddwl efallai y bydd y cyfan yn arwain at ti'n-gwybod-pwy."

Bu saib.

"Wyt ti'n siŵr?"

"Wel, dw i ddim yn siŵr yn union, rhyw deimlad sydd gen i, ond mae'n edrych fel gwaith ei ddwylo fo. Ti'n gwybod, pobl yn ymddwyn yn rhyfedd, pethau ddim yn union fel y dylen nhw fod. Mae gen i deimlad rhyfedd fod rhywbeth mawr ar droed, a ti'n gwybod amdana i a 'nheimpladau rhyfedd?"

"Ydw," meddai'r llais, "fel arfer rwy'ti'n iawn."

Dw i'n aros am amser hir, ac yna o'r diwedd mae drws yr ystafell ymolchi'n agor. A dyfala pwy sy'n dod allan?

Guto.

Dyw bod mewn ystafell ymolchi ddim yn beth arferol iddo fe o gwbl. Mae Mam yn dweud nad yw Guto a glendid yn ffrindiau pennaf. I fod yn lân rhaid defnyddio dŵr a sebon.

Mae gwynt glân arno fe, dim byd hyd yn oed yn debyg i gaws llyffant.

Dydd Gwener

Yn y bore, mae pethau'n fwy amheus eto a dw i'n dechrau meddwl bod drwg yn y caws.

I ddechrau, alla i ddim dod o hyd i fy mrws gwallt.


Mae e ar goll.

Mae Mam yn ymddwyn yn rhyfedd. Mae'n gadael imi fwyta fy ngrawnfwyd o flaen y teledu sydd BYTH BYTHOEDD yn digwydd fel arfer rhag ofn imi arllwys llaeth, ac mae llaeth yn hollol anodd i'w gael oddi ar ddodrefn.

Dw i wrth fy modd oherwydd mae **Carlo'r Ci a'i Ffrind Carwyn** ar y teledu. Cartŵn doniol dros ben yw e am gi twp a'i ffrind, llygoden fawr sy'n driblan. Trueni na wnes i feddwl am y syniad 'na. Mae pobl y teledu'n meddwl am gymaint o syniadau da, dyna maen nhw'n ei wneud drwy'r dydd gwyn – meddwl a meddwl.

Dychmyga dy fod ti'n cael dy dalu i feddwl.

Dwlen i fod yn y busnes teledu. Mae llwyth o syniadau 'da fi.



Dw i'n meddwl am bethau'n ddi-ddi-ddiwedd.
Mae'n siŵr y gallwn i ennill sgwiliynau o
bunnoedd y flwyddyn am feddwl.

Yna dyma'r ffôn yn canu a dw i'n clywed Mam
yn dweud, "Ie? O wir? O na, beth? O'r nefoedd
wen, fydda i draw nawr."

Yna mae Mam yn gweiddi, "Carys, Gwyn, dewch
glou i'r car neu byddwch chi'n hwyr i'r ysgoll!"

Dw i'n dweud, "Ond Mam, dim ond hanner
awr wedi saith yw hi!"

Mae hi'n dweud, "Wel dychmyga'r syrpreis gaiff
Mrs Prydderch pan fyddi di'n cyrraedd yn gynnar."

A dw i'n dweud, "Dychmyga'r syrpreis gaiff Mrs
Prydderch pan fydda i'n cyrraedd yn fy mhyjamas."

Ac mae hi'n dweud, "Wel, mae gen ti bum eiliad yn
union i ddod o hyd i rywbeth tebyg i wisg ysgoll!"

Dw i'n dweud, "Beth yn y byd sy'n digwydd?"

Ac mae hi'n dweud, "Does gen i ddim amser i
egluro, nawr bant â'r cart!"

Nawr roedd hynny'n rhyfedd, on'd oedd e?

Dw i'n cyrraedd yr ysgol am chwarter i wyth y bore.
Does neb yno heblaw am y lanhawraig, sy'n rhoi
bisged i fi o gwpwrdd y gofalwr.

Dw i'n gofyn iddi am y digwyddiad rhyfedd pan
oedd y cotiau wedi newid lle ac mae'n dweud
bod Mr Griffiths wedi gorfod symud y cyfan pan
oedd toiledau'r bechgyn wedi gorlifo.

Roedd golwg ar y lle, meddai, felly roedd Mr
Griffiths wedi penderfynu glanhau'r lle i gyd.

"Aeth e ati i lanhau'r holl gypyrddau arddangos oedd
yn dal holl gwpanau'r ysgol a phopeth," meddai.

"Mae popeth y gallet ti ei enwi wedi cael ei
lanhau," meddai.

Ro'n i'n hanner gobeithio y byddai'r ateb yn fwy
o ddirgelwch na hynny ond mae'n debyg ei bod
hi'n braf gallu datrys rhywbeth.

Wrth i Mrs Prydderch fy ngweld i, mae'n gwneud
sylw anghwrtais fy mod i'n "brydlon" am unwaith
a dyna drueni na allwn i "fod wedi brwsio fy
ngwallt hefyd" i "goroni ei diwrnod".

"Carys Blodyn, rwyf ti'n edrych fel petaet ti wedi

cael dy lusgo drwy'r drain a'r drysi," meddai.
Byddai hi'n dda gen i petai rhywun yn llusgo
Mrs Prydderch drwy'r drain a'r drysi.
Mae hi cynddrwg â Mrs Dafis a fyddai hi ddim yn
syndod i mi petai Haf E Madog Roberts wedi cael y
syniad am Mrs Dafis ar ôl cwrdd â Mrs Prydderch.

Yn y dosbarth, mae rhai'n sôn am eu harddangosfa.
Dw i'n trio peidio â siarad am fy un i achos dw
i'n ceisio cadw'r peth yn dawel oherwydd fe allai
ti'n-gwybod-pwy fod yn ceisio copïo, yn ogystal
â phobl eraill y gallwn i sôn amdany'n nhw.
Trueni nad yw Siriol Morris yma i siarad â hi am
bethau cyfrinachol.
Ond dyw hi ddim yn yr ysgol eto.
Does neb yn gwybod lle mae hi.
Dyw Efa Evans ddim wedi clywed fy syniad eto
achos yn ffodus, doedd hi ddim yn yr ysgol pan
feddyliais i amdano.
Dw i'n gwybod beth fydd Bethan Glain yn ei
wneud – yr union fath o brosiect y byddai Mrs

Prydderch yn ei hoffi.
Mae hi wedi dewis llyfr o'r enw *Byd Natur
Anhygoel Awstralia*.
Mae ei harddangosfa hi'n mynd i fod am
gangarwod a'u harferion.
Mae hi'n dweud ei bod hi'n mynd i dreulio'r
dydd i gyd yn sboncio, i gael gweld sut mae
cangarw'n teimlo.
Mae Andrew James yn gwneud yr un fath, ond
gyda walabis.

Ar ôl cinio, dw i'n cael mwy o lond bol nag
arfer ar Mrs Prydderch.
Mae hi'n dweud bod fy sillafu dros bob man, a'i
bod hi'n ddiddorol sut dw i'n gallu sillafu'r un
gair mewn cymaint o wahanol ffyrdd.
Mae hi'n dweud, "Dalia di ati i ddyfalu ac mae'n
debyg y byddi di'n iawn ryw ddiwrnod."
Trueni na chawn i fy hen athrawes, Mrs Nicholas
yn ôl. Roedd hi wir yn neis a byddai hi'n dweud
'da iawn' dim ond iti wneud ymdrech fach.

Ond dyw ymdrech fawr ddim yn ddigon i rai
pobl y gallwn i sôn amdany'n nhw'n dechrau â P.
Mae Dad bob amser yn dweud y dylwn i geisio
cadw allan o'i ffordd hi.

Ond dw i eisiau gwybod SUT, a finnau yn ei
dosbarth hi bob dydd gwyn?

Trueni nad ydw i'n oedolyn.

Mae Dad yn dweud, "Dyw pethau'n ddim haws –
bydd rhywun yn dal i geisio bod yn fôs arnat ti."

Mae e'n dweud bod Mr Moses, ei fôs, yn ddyn
anodd ac mae'n ceisio cadw draw oddi wrtho
gymaint ag y gall e.

Dw i'n dweud, "O leiaf rwy'ti'n cael dy dalu
am gael rhywun yn fôs arnat ti. Dw i'n cael
rhywun yn fôs arna i am ddim byd."

Alla i ddim canolbwyntio achos dw i'n brysur yn
dychmygu Mrs Prydderch fel hipopotamws,
a dw i'n ysgrifennu:

Mae Mrs Prydderch yn hippipotimis

Mae Mrs Prydderch yn hippipotimis

dro ar ôl tro, heb feddwl.

A dw i ddim yn gwybod bod Mrs
Prydderch yn sefyll yn union y tu ôl
imi, yn darllen y cyfan.

Dyma hi'n dweud, "Oes
unrhyw un yn gallu
sillafu'r gair


hipopotamws yn
gywir i Carys
Blodyn?"

Wrth gwrs, mae
Bleddyn Bifan yn
codi ei law, sy'n jôc achos fe yw'r person olaf
fyddai'n gallu sillafu hipopotamws.

Yn ffodus i fi, mae Mrs Morgan yn
trotian i mewn.


Mae Mrs Morgan yn edrych
ychydig bach fel draenog mewn
sodlau uchel.

Dyma hi'n dweud, "All Carys
Blodyn ddod i swyddfa'r ysgrifenyddes




os gwelwch yn dda lle mae ganddi fam yn aros amdani.”

Mae pawb yn edrych arna i'n gadael achos maen nhw'n gwybod bod rhywbeth pwysig iawn ar droed a finnau'n mynd i golli hanner prynhawn o ddiflastod Mrs Prydderch.



Mae Mam yn cerdded yn gyflym iawn ar draws y lle chwarae, ac mae'n rhaid imi hanner rhedeg i aros gyda hi. Pan dw i'n mynd i mewn i'r car, dyna lle mae Gwyn yn siarad ag ef ei

hun fel peth dwl. Dyma Mam yn dweud, “Mae'n ddrwg gen i dy dynnu o'r dosbarth yn gynnar, ond dw i wedi cael bore a hanner, cred ti fi! Fydd neb gartre i agor drws y tŷ ichi ar ôl yr ysgol felly mae'n rhaid i chi ddod gyda fi.” Mae hi'n dweud, “Mae rhywbeth neu'i gilydd yn blincin bod o hyd.” Dw i'n dweud, “Ble mae Tad-cu? Pam nad yw e gartre?” Mae Mam yn dweud, “Mae Tad-cu mewn dyfroedd dyfnion iawn.” Mae'n debyg ei fod e wedi cael ei wahardd rhag ymweld â'i ffrind gorau o'r enw Prys-y-Crys Lewis yng Nghartref Henoed Bytholwyrdd. Ac efallai bydd rhaid i Prys-y-Crys



Lewis symud allan o Gartref Bytholwyrdd
oherwydd dyw e'n amlwg ddim yn gallu ymddwyn
fel person hŷn cyfrifol a chadw at reolau pobl eraill.
Tan yr wythnos cyn diwethaf, roedd e'n byw yn
ei fflat ei hun gyda chi Pecinî a chi blaidd ond
roedd y bobl sy'n gwybod beth yw beth yn
dweud bod y grisiau'n mynd yn drech nag e ac
oherwydd un peth a'r llall roedd rhaid iddo fe
gael ei symud i gartref hen bobl fel bod rhywun
yn gofalu amdano fe rownd y rîl.

Roedd y cyfan

er ei les ei hun.

Dwedodd Prys nad oedd ots ganddo orfod
symud ac y byddai'n braf cael rhywun i wneud
bwyd iddo, gan mai'r unig beth roedd e'n fwyta
o'r blaen oedd caws ar dost ac weithiau caws ar
ddim byd.

Ond y problem fach fawr yng Nghartref Henoed
Bytholwyrdd yw nad oes hawl cadw cŵn o gwbl
a dim cathod yn bendant chwaith.

Mae hawl cadw bwji.

Dyma Mam yn dweud, "Roedd pawb yn meddwl
bod Prys wedi rhoi ei gŵn i Mrs Charles."

Ond na, mae rhywun o'r enw Tad-cu wedi bod
yn cadw Fflos yn y sied yn yr ardd a Phecinî o'r
enw Penri yn ei ystafell hyd yn oed, a bob nos
mae e wedi bod yn mynd â nhw ar y slei i
ystafell wely Prys yng Nghartref Bytholwyrdd.
Ac yna bob bore mae e'n mynd i'w nôl nhw a
dod â nhw adre.

Yn anffodus, dihangodd Penri a chnoi Owen,
bwji Mrs Wilkins, nes ei fod yn gwbl farw.

Ac mae Mrs Perkins wedi gwneud cwyn yn
erbyn Tad-cu a Prys, ac mae Mam yn gorfod
rhoi trefn ar bopeth.

Rhaid i ni aros yn y coridor wrth i Mam drefnu
pethau i Prys a cheisio cael lle iddo yn rhywle
lle mae hawl i gael anifail anwes. Ond haws
dweud na gwneud.

Does dim teulu gan Prys, heblaw am fab yn
Alaska, ac mae Mam yn dweud bod rhaid i rywun
helpu.



Mae Gwyn yn llwyddo i dreulio 1 awr yn esgus gyrru car papur tŷ bach o gwmpas y carped. Diolch byth imi ddod â fy llyfr.

Cyrhaeddodd Rhian Rhisiart adre ar ôl diwrnod hir a chaled yn yr ysgol. Gan gicio ei sgidiau oddi am ei thraed, rhedodd i fyny'r grisiau i'r gegin.

Roedd Mrs Rhisiart ynŵ, wrthi'n brysur yn gwneud beth bynnag roedd Mrs Rhisiart yn ei wneud, ac roedd Mr Rhisiart yn darllen y tudalennau chwaraeon.

Roedd Huws yn paratŵi coctels ffrwythau hardd. Gan ddal llygad Rhian, pwyntiodd Huws yn gynnŵl at ei wats. Ysgydwodd Rhian ei phen.

Roedd amser yn brin – roedd disgwyl i Rhian a Huws fod yn y pencadlys am 1700 awr.

"Helŵ Mam, helŵ Dad! Rhaid imi fynd i adolygu ychydig ō hanes – gwaith cartref, chi'n gwybod."

"Wrth gwrs, 'nghariad i. Dw i mor falch dy fod ti'n treulio cymaint ō amser yn gwneud dy waith ysgol. Beth rwy't ti'n ddysgu'r dyddiau hyn?" gofynnodd ei mam.

"Wel, gwahanŵl bethau," atebodd Rhian gan osgoi'r cwestiwn.

Yn ffodus, canodd y ffŵn a dechreuodd Sara Rhisiart sgwrsio am drefnu blodau â Mrs Clynnog.

"Brysia, Rhian!" sibrydodd Huws. "Does dim llawer ō amser gyda ni. Rhaid imi dy gael di i'r pencadlys cyn ..."

"O Rhian, cariad ..." galwodd ei thad, ond roedd Rhian eisoes hanner ffordd i fyny'r grisiau i'w hystafell.

"Wela i di wedyn, Dad. Dw i'n gorfod adolygu!"

"Ond Rhian!" ychwanegodd ei thad. "Dim ond eisiau rhoi gwybod i ti, byddai dy fam a fi wrth ein bodd petaet ti'n gallu dod lawr i gael swper gyda ni heno. Mae Marian a Gerwyn yn dod draw gyda'u mab, Peredur. Bydd swper am wyth. O, 'nghariad i, gwisga rywbeth neis."

"Daria," ochneidiodd Rhian ō dan ei gwynt.

Heb sŵn am yr hunllef ō geisio cyrraedd adre mewn pryd, roedd Peredur yn boendod a hanner.

Dyw Mr a Mrs Rhisiart ddim yn gwybod dim

am fywyd cudd Huws fel rhywun sy'n helpu
ysbïwyr. Does dim syniad ganddyn nhw mai
swydd fach gyfleus yw bod yn fwtler iddo fe.

Rydyn ni'n cyrraedd adre ac mae Guto wedi
coginio swper i ni.

Dyw e ddim yn rhy
wael a dweud y gwir.
Ond alla i ddim peidio â
sylwi ei fod e wedi bod
yn defnyddio brws gwallt.
Does dim brws gwallt gan
Guto!

Mentra i ei fod e wedi bod yn
defnyddio fy un i, y mwnci.
Dw i mor brysur yn meddwl
am hyn, bron imi beidio â
sylwi ar y llythyr, ar y ford, sydd
wedi'i gyfeirio ata i, a'm henw i
arno.



Dw i'n ei agor ar unwaith yn syth.

Y tu mewn mae cerdyn post gyda llun o Haf E
Madog Roberts yn gwisgo siwt drowsus. Yr un
llun sydd ar gefn pob un o lyfrau Rhian Rhisiart.

Mae'r llythyr yn dweud:

Annwyl Siriol a Cerys
Diolch am eich llythyr caredig.
I ateb eich cwestiwn, bydd llyfr nesaf
Rhian yn cael ei gyhoeddi'r hydref hwn.
Nid ydym wedi datgelu beth fydd ei
deitl eto.

Mae Haf E Madog Roberts yn gobeithio y
byddwch yn parhau i fwynhau ei llyfrau
ac yn dymuno pob hwyl ichi wrth
ddarllen!

Yn gywir

Haf E Madog Roberts

Awdur Casgliad Rhian Rhisiart

(Mae manylion am glwb cefnogwyr Rhian
Rhisiart ar y wefan.)

Roeddwn i wedi gobeithio cael llythyr yn rhoi mwy o wybodaeth – nid dyna'r llythyr roeddwn i'n ei ddisgwyl a dw i ddim yn credu mai Haf E Madog Roberts ei hun ysgrifennodd e, hyd yn oed. Roedd e'n edrych dipyn fel petai wedi cael ei deipio a doedd fy enw i ddim wedi'i sillafu'n iawn a dw i'n siŵr fod Haf E Madog Roberts yn sillafu'n dda.

Wrth glywed am ddiwrnod ofnadwy Mam dyma Dad yn dweud, “Mae'n swnio fel petai Tad-cu'n haeddu cael ei drin fel ci.”

Dyma Mam yn dweud, “Yr eiliad hon, dw i ddim yn meddwl bod hynny'n ddoniol o gwbl.”

Mae gen i **benwythnos** cyfan i boeni a meddwl tybed beth sydd wedi digwydd i Siriol Morris.

Y peth cyntaf dw i'n ei wneud yw codi am 7 y bore ddydd Sadwrn yn poeni bod y gwaethaf wedi digwydd.

Un syniad gefais i oedd fod Awel a Myrddin wedi

anfon Siriol i ysgol breswyl achos dw i wedi darllen am hynny'n digwydd i bobl mewn llyfrau pan fydd eu rhieni nhw'n cael llond bol arnyn nhw.

Ond dyw Awel a Myrddin byth yn cael llond bol ar Siriol – maen nhw'n mynd â hi gyda nhw'n hollol i bobman.

Hefyd, mae Awel a Myrddin wedi diflannu, a does neb yn ateb y ffôn, ddim hyd yn oed y peiriant ateb ei hun.

Efallai bod y Morrisiaid ar ffo rhag y gyfraith, neu efallai bod Myrddin wedi dyfeisio dyfais ac mae rhywun afiach yn ceisio ei ddwyn e ac mae'r Morrisiaid wedi gorfod mynd i guddio.

Fel sy'n digwydd yn y llyfr **RHED AR RAS, RHIAN.**

Neu efallai eu bod nhw wedi cael eu dal, ac os nad ydyn nhw'n rhoi'r fformwla gudd fe fyddan nhw'n cael eu gollwng i losgfynydd sy'n ffrwtian, sef yr hyn ddigwyddodd i Rhian Rhisiart yn **BLE YN Y BYD RWYT TI, RHIAN RHISIART?**

Yn y stori, rhaid i ffrind Rhian, Hywel Hedd, ddatrys y dirgelwch ynglŷn â lle mae Rhian wedi

mynd a dilyn yr holl gliwiau. Mae Hywel Hedd yn gorfod gwneud hyn yn eithaf aml.

Hyd yn oed yn y llyfr hwn, **RHIAN RHISIART SY'N RHEOLI**, dw i wedi cyrraedd y darn lle mae'n ymddangos bod Rhian wedi diflannu, ond peidiwch â phoeni, mae'r cyfan yn rhan o'i gwaith fel ysbïwraig.

Ceisiodd Hywel Hedd gofio'r holl bethau roedd Rhian wedi'u dweud yn ystod eu sgwrs ffôn y noson o'r blaen. Dyna'r tro diwethaf roedd Hywel wedi clywed oddi wrth Rhian. Oedd Rhian yn ceisio dweud rhywbeth wrtho?

Efallai iddi gael ei chipio gan ryw arch ddihiryn a'i bod yn ceisio rhoi gwybod i Hywel lle roedd hi mewn rhyw fath o god. Erbyn meddwl, roedd hi'n rhyfedd bod Rhian wedi sôn am fwyta pwdin reis yn ninas Mecca – roedd Rhian yn casáu pwdin reis, roedd pawb yn gwybod hynny! A beth yn union roedd hi'n ei wneud ym Mecca?

Yn y stori, mae Hywel yn meddwl ar frys ac yn sylweddoli bod pwdin reis yn golygu NEWYDDION DRWG (achos mae pwdin reis yn newyddion drwg os nad wyt ti'n ei hoffi) mae 'yn' yn golygu YN ac mae 'dinas Mecca' yn golygu

dinas Mae Eisiau Cyngor Cyfrinachol Arnaf.

Felly'r neges yw:

...NEWYDDION DRWG. YN Y DDINAS. MAE EISIAU CYNGOR CYFRINACHOL ARNAF...

Mae'r cyfan mor glyfar, trueni nad ydw i'n deall cod.

Dw i'n cael rhyw fath o gliw ar ôl mynd i lawr y grisiau.

Mae e wedi dod drwy flwch y llythyrâu.

Cerdyn post yw e gyda darlun o ryw adeilad rhyfedd, cyrliog arno fe a'r geiriau

Trueni nad wyt ti yma gyda ni!

Mae cornel y cerdyn wedi'i rwygo ac alla i ddim darllen oddi wrth bwy mae e.

Wrth gwrs, efallai mai oddi wrth Siriol mae e
achos mae S yno ac ysgrifennu Siriol yw hi.
Efallai, mae'n debyg, ei bod hi'n ceisio dweud
rhywbeth wrtho i...

ond beth?

Dw i'n rhedeg i ddangos
i Mam, ond mae hi'n
brysur yn sgwrsio â Guto.
Efallai nad yw hynny'n
beth rhyfedd i ti, ond mae
unrhyw un sy'n ei nabod e'n
gwybod nad yw Guto byth
yn sgwrsio.

Ddydd Sul

dw i'n mynd draw
i weld fy ffrind

Anwen Tewdwr.

Mae hi'n bwyta pítsa

ac mae hi'n dweud beth

ddigwyddodd yn yr ysgol ar ôl imi
orfod gadael adeg yr argyfwng.



Mae'n dweud bod Tomos Howells a Dylan Walters
wedi dweud wrth Mrs Prydderch eu bod nhw'n
gwneud eu harddangosfa nhw ar y geiriadur.
A dwedodd Mrs Prydderch rywbeth fel, "Wel,
dyna syniad ardderchog yn wir."

A dywedodd Tomos Howells, "Rydyn ni'n
mynd i ysgrifennu llawer o eiriau a'u hargraffu
nhw wir yn enfawr a'u gludo nhw yn y coridor."
Dywedodd Mrs Prydderch, "Wel, am unwaith,
Dylan Walters a Tomos Howells, dw i'n
cymeradwyo'n fawr."

Yn anffodus, newidiodd hi ei meddwl pan
welodd hi'r geiriau roedden nhw wedi'u dewis.
Dywedodd hi, "Wel, os ydych chi'ch dau mor
hoff o eiriau, mae gen i'r union beth i chi."
Cadwodd hi nhw i mewn drwy amser egwyl.
Roedd yn rhaid iddyn nhw ysgrifennu:

**Dw i ddim yn fawr a dw i ddim
yn glyfar**

dro ar ôl tro ar ôl tro, o leiaf gant o weithiau.
Mae hi'n dweud, "Dydyn nhw ddim yn cael bod

gyda'i gilydd oherwydd dydyn nhw ddim yn gallu ymddwyn fel plant wedi tyfu i fyny, ac mae un ohonyn nhw'n tynnu ar y llall o hyd ac maen nhw'n gwastraffu amser dysgu gwerthfawr wrth fod yn ddwl." Meddai, "Os na allan nhw ymddwyn fel bechgyn bach cwrtais, dyna ni, fyddwn ni ddim yn eu trin nhw fel bechgyn bach cwrtais." Meddai, "Dw i ddim yn mynd i ddioddef mwy! Ydych chi'n clywed?"

Dydd Llun

Ro'n i'n meddwl bod y cyfan yn ddoniol iawn, tan i Mrs Prydderch ddweud heddiw, "Gan fod Siriol wedi penderfynu peidio â ffwdanu dod i'r ysgol dros y dyddiau diwethaf, gall Carys Blodyn fod yn bartner i Dylan Walters."

Wrth gwrs, dw i'n hollol fud.

I goroni'r cwbl, pan fydd person yn dechrau gydag E o'r enw Efa Evans yn darganfod fy mod i'n gwneud Rhian Rhisiart, mae hi'n dweud ei bod hi'n cael hefyd ac mai ei syniad hi oedd e o'r

dechrau ac mai fi sy'n ei chopio hi. A'i bod hi'n mynd i wneud gwaith ar Rhian Rhisiart.

Dyma Mrs Prydderch yn dweud, "Dim o gwbwl, Miss Trwbwl!"

Ac yna dyma hi'n dweud, "Mewn gwirionedd dw i ddim hyd yn oed yn siŵr fod unrhyw un yn mynd i gael gwneud arddangosfa ar y fath sothach."




Mae Mrs Prydderch yn dechrau bod yn feirniadol iawn o'm syniad i.

Meddai, "Dyw cyfres Rhian Rhisiart ddim yn enghraifft dda o lenyddiaeth ein hoes ni."


Sut gall hi ddweud y fath beth?????

Dyma fi'n dweud mai un syniad sy gen i yw gwneud bathodynau oherwydd mae Rhian yn dweud pethau mor fachog ac mae hi'n eu dweud nhw o hyd ac o hyd.

Pethau fel:



a




Mae Mrs Prydderch yn dweud bod gan Rhian Rhisiart ffordd anffodus o siarad a'i bod hi'n ddeunydd anaddas i ferched bach. Mae hi'n dweud, "Mae'r llyfrau hyn yn annog merched i redeg yn wyllt a byddai'n well gen i petaet ti'n dewis prosiect newydd ...

... beth am ddawnsio bale?"

Mae'n dweud, "Os wyt ti'n mynnu gwneud y llyfrau Rhisiart yma, bydd yn rhaid i ti fynd i siarad â Mr Preis. Efallai y gall e fwrw ychydig o synnwyr i dy ben di."

Mae Mr Preis yn dweud, "Dw i'n credu ei bod hi'n iawn ichi wneud llyfrau Rhian ar gyfer eich arddangosfa, achos mae'n bwysig ichi fwynhau darllen. Dw i'n eich cefnogi chi. Ond, rhaid i ran o'r arddangosfa ddangos beth rydych chi wedi'i ddysgu o'r llyfr. Ac i fod ag unrhyw siawns o ennill y cwpan a'r wobr ddirgel rhaid ichi ddweud wrth bawb beth yw hynny."



Mae Mr Preis yn dweud ei fod e'n edrych
ymlaen yn fawr at weld fy arddangosfa.
Mae e'n dweud ei fod e wedi prynu llyfrau
Rhian Rhisiart i'w nith ac y byddai'n braf cael
amser i'w darllen nhw ei hun – maen nhw'n
swnio'n gyffrous iawn.

A dw i'n dweud,

“Maen nhw, wir i chi.”

Dw i'n dod allan o swyddfa Mr Preis a dyna lle
mae Efa Evans yn gwgu arna i a dyma hi'n
dweud rhywbeth fel, “Miss Copio.”

A dw i'n dweud,

“Ti sy'n fy nghopio i ac rwy'ti'n gwybod
hynny'n iawn.”

Ac mae hi'n dweud, “Celwyddgi!”

A dw i'n dweud, “Pen ôl tew!”

Efa Evans yw fy ngelyn pennaf,
heblaw am Mrs Prydderch, oherwydd mae hi'n
gwybod popeth ac mae hi bob amser yn codi
'ngwrychyn i gyda'i hen sylwadau pigog ac mae
hi wir yn gallu bod yn gas.

Unwaith fe wahoddodd hi Siriol Morris i'w
pharti pen-blwydd sgleffio heb ofyn i fi.

Dyw hi ddim hyd yn oed yn un o ffrindiau Siriol
Morris.

Ond gwrthod wnaeth Siriol. “Dw i'n mynd i gael
te gyda fy ffrind hollol orau, Carys Blodyn,” meddai.
A dyna ni, a dyna pam mai Siriol Morris yw fy
ffrind gorau oll.


Mae Mam yn dweud, “Mae arna i ofn y byddi di
bob amser yn dod ar draws merched fel Efa Evans.
Dw i'n cofio yn fy ysgol i roedd hen ferch gas
o'r enw Olwen Wmffre.

Roedd hi'n arfer rhoi gwm cnoi yn fy nhreinyrs
a dweud wrth bobl bod gen i lau pen.”

Mae Mam yn dweud mai'r unig ffordd i ddelio â
merched fel Olwen yw teimlo trueni drostyn nhw.
Rhaid eu bod nhw'n bobl ddiflas iawn os mai'r
unig bleser maen nhw'n ei gael yw gwneud i
bobl eraill beidio â'u hoffi nhw o gwbl.

Dw i'n dweud, “Alla i ddim teimlo trueni dros Efa
Evans achos mae hi'n rhy hollol ofnadwy.”

Mae Mam yn dweud, "Digon teg, meddylia
amdan i hi
fel
gwlithen,
'te."



Ar ôl mynd nôl i'r dosbarth rhaid imi feddwl yn ofalus iawn am y rhan o'r arddangosfa sy'n dysgu rhywbeth i ni.

Dw i'n siŵr fod llawer o bethau i'w dysgu o ddarllen llyfrau Rhian Rhisiart.

Rhaid bod, achos maen nhw'n cael eu hysgrifennu am rywun hynod o glyfar ac maen nhw'n cael eu hysgrifennu gan rywun hynod o glyfar.

Felly rhaid fy mod i wedi dysgu rhywbeth, ond beth?

Yn ystod amser egwyl dw i'n darllen mwy o

RHIAN RHISIART SY'N RHEOLI i weld a alla i ddysgu rhywbeth yn gyflym.

Aeth Rhian rownd y gornel a dod wyneb yn wyneb â'i gelyn pennaf, Ffraid Beynon, a oedd yn eistedd ar bwys y pistyll dŵr, yn siarad â'i ffrind, Gwyneth Meirion.

Roedden nhw'n trafod etholiad yr ysgol a phwy oedd yn mynd i gael ei ethol yn Llywydd y Dosbarth.

"Does dim ots gyda fi, dim ond i'r hen Rhian Rhisiart 'na beidio ag ennill," meddai Ffraid yn wawdlyd.

"O, rwyt ti'n siŵr o ennill, Ffraid," atebodd Gwyneth, gan guro ei ffrind yn ysgafn ar ei chefn.

"Hei, Gwyneth, wyt ti'n arogli rhyw hen ddrewdod bach rhyfedd?" meddai Ffraid â'i llais cras, gan esgus ffroeni'r awyr, "O, helô Rhian, ti sy 'na."

"Helô surbwch," atebodd Rhian. "Wyt ti wedi edrych yn y drych yn ddiweddar? Mae rhywbeth rhyfedd gen ti ar dy wyneb – o nac oes, fi wnaeth gangymeriad, dim ond dy drwyn di ydy o."

Ar ôl yr ysgol mae Dylan Walters yn dod ata i ac
yn dweud nad yw e eisiau gwneud

hen lyfr **twp** i ferched

am ryw hen **ferch dwp**,

ac y bydd e wir yn

dwp ac yn **ddiflas**.

Dw i'n dweud, "Fydd e wir!

Felly mae bod yn ysbïwraig ac achub pobl gan
ddefnyddio dim ond dy allu a rhyw declynnau
newydd yn dwp, ydy e?

Ac mae'n debyg bod ymladd ag archddihirodd a
hedfan o gwmpas mewn hofrennydd porffor yn
ddiflas i rywun fel ti sydd ond yn dod i'r ysgol ar
hen feic bach."

A dw i'n dweud, "Er gwybodaeth, maen nhw'n
mynd i droi'r llyfr yn ffilm yn Hollywood."

Mae'n amlwg i hynny greu argraff arno fe.

Ac ar ôl imi ddweud wrtho fe am y belen o
lysnafedd, Porchell Probert, yr archddihiryn, ac
wedi imi ddigwydd sôn am sut mae'r Iarll ap
Iorallt yn ceisio gollwng Rhian Rhisiart a Hywel

Hedd i losgfynydd sy'n ffrwtian, ond bod Huws
yn eu hachub nhw mewn union bryd, yna'n
sydyn mae e'n eitha awyddus.

Mae e'n dweud nad oes ganddo ddiddordeb yn y
darn achub, ond bod y gweddill yn eitha da.

Dw i'n benthg un o'm llyfrau Rhian iddo fe, o'r enw
BLE YN Y BYD RWYT TI, RHIAN RHISIART?

Mae e wedi addo peidio â gadael i'w gi ei gnoi e.
Yna rwy'n dangos y cerdyn post o'r adeiladau
cyrllog i Dylan, gyda'r cliwiau sy'n dangos mai
oddi wrth Siriol Morris mae e, ac mae e'n dweud
ei bod hi siŵr o fod wedi cael ei herwgipio gan
ddynion o'r gofod sydd eisiau meddiannu'r byd.
Dyna'r union beth roeddwn i'n ei ofni.

Felly, ar ôl cyrraedd adre, dw i'n ffonio Mam-gu
ac mae hi'n dweud wrtho i am ddisgrifio'r llun.
Dyw hi ddim yn dweud dim am rai munudau ac
yna mae sŵn tagu rhyfedd.

Ac yna mae Mam-gu'n dweud, mewn llais tenau,
braidd yn rhyfedd, "Sori, dw i newydd lyncu
losin. Bydd rhaid imi dy ffonio di 'nôl."

Mae'n ffonio 'nôl ac yn dweud, "Mae'n swnio i mi fel petai ein ffrind Siriol yn Rwsia."

Ddydd Mawrth, mae Efa Evans ac Enfys Francis yn dweud eu bod nhw'n mynd i wneud hanes bale. Maen nhw wedi dewis llyfr o'r enw *Hud y Ddawns*.

Mae Mrs Prydderch yn edrych yn hollol ar ben ei digon. Dyna'r union fath o brosiect llyfr y byddai hi'n dwlu arno.

Mae'n dweud, "Wel ferched, dw i'n edrych ymlaen yn fawr at weld beth wnewch chi achos dw i'n dwlu ar ddawnsio bale."

Mae Efa Evans yn edrych arna i â gwên seimllyd, sy'n gwneud imi deimlo'n reit sâl.

Mae Mrs Prydderch yn dweud wrth Tomos Howells bod yn rhaid iddo fe fynd i'w grŵp nhw. Dyw e ddim yn edrych mor hapus.

Yn nes ymlaen wrth ddweud wrth Mam-gu, mae hi'n dweud, "Mae'n amlwg bod Efa Evans yn ysu am ennill ac yn gwbl benderfynol."

Mae'n rhyfedd ond mae gan Dylan Walters rai syniadau da.

Mae e'n dweud ei fod e'n gweithio ar rywbeth gartref a fydd yn golygu y byddwn ni'n debygol iawn o ennill y gystadleuaeth ac mai ni fydd yn cael y cwpan bach â'n henwau arno a bydd pawb yn ei weld e, gan gynnwys Efa Evans.

Mae Tomos Howells yn boendod ac yn ceisio tarfu arno.

Mae'n dweud, "Ha ha ha, rwyf ti'n gwneud llyfr i ferched."

Ac mae Dylan yn dweud, "Beth yw'r ots? Rwyf ti'n gwneud dawnio bale."

Mae Tomos Howells yn cropian 'nôl i'w ddesg.

Dw i'n gwahodd Dylan i'r tŷ ar ôl yr ysgol ond mae e'n dweud ei fod e hyd at ei glustiau'n gwneud golygfa o lyfr Rhian Rhisiart.

Ond efallai y daw e draw am ryw awr a chwarter efallai.

Mae e'n hynod o brysur.

Mae e'n gwneud model o'r llosgfynydd lle mae'r Iarll ap Iorallt ar fin lladd Rhian Rhisiart a Hywel Hedd gan ddweud, "Hwyl fawr, y plant busneslyd!" cyn chwerthin yn iasol.

Ac mae Dylan yn mynd i baratoi recordiad o chwerthiniad iasol a'i chwarae dro ar ôl tro ar recordydd tâp bychan.

Y cwbl sydd ei angen yw cael hyd i chwerthiniad iasol i'w recordio.

Sydd ddim mor hawdd ag y byddet ti'n meddwl. Mae e'n dweud nad yw Rhian Rhisiart gynddrwg â hynny, o ystyried mai dim ond llyfr i ferched yw e. Dw i'n dweud, "Nid dim ond llyfr i ferched yw Rhian Rhisiart, mae'n llyfr i bawb. Mae Mr Preis ei hun yn mynd i'w darllen nhw."

Yn nes ymlaen yn fy nhŷ i, mae Dylan Walters a dweud y gwir yn anhygoel o ddoniol.

Mae'n gallu gwneud i'w lygaid droi i bob man yr un pryd.

Mae e'n dweud y gwnaiff e ddysgu fy mrawd bach, Gwyn, sut i wneud hyn os yw e eisiau.

Ac mae'n gallu yfed sudd oren drwy welltyn i fyny ei drwyn.


Pan dw i'n dweud wrth Mam, mae hi'n dweud bod hyn yn anhygoel ond nid o anghenraid yn rhywbeth i'w wneud wrth y bwrdd bwyd.

Dw i'n dweud, "Ond fe ddylet ti ei weld e, mae'n hollol anhygoel."

Mae Mam yn dweud ei bod hi'n mwynhau pethau rhyfeddol a rhyfedd, ond nad yw hi'n teimlo bod angen iddi weld sudd oren yn mynd i fyny trwyn Dylan Walters.

Mae Dylan yn dweud pan fydd e'n ddigon hen, y bydd e'n tyfu barf a bydd ganddo fe o leiaf chwech o gŵn.

Ar ôl i Dylan fynd, dw i'n meddwl pa mor hollol wych fyddai hi petai Siriol Morris yn dod 'nôl.



Fe fyddai hi wir yn hoffi Dylan Walters.

Dw i'n siŵr o hynny.

Mae Siriol a fi'n gweld bod yr un pethau'n hollol yn ddoniol.

Petai Mam a Dad yn gyfoethog a phetai gen i fwtler sy'n gallu hedfan hofrenyddion, yna gallwn i wibio draw a hebrwng Siriol o Rwsia.

Mae tad Rhian, Mr Rhisiart yn hollol gyfoethog achos mae e'n filiwnydd ac mae Mrs Rhisiart yn ddynes sy'n mwynhau ciniawa, sy'n golygu nad yw hi'n gwneud dim ond cael rhywun i olchi'i gwallt a pheintio ei hewinedd mewn salon harddwch, ac yna mae'n mynd i gwrdd â'i ffrindiau i ginio ac yn dweud pethau fel, "Cariad, dyna hyfryd dy weld di," ac yna mae'n dod adre ac yn newid i wisgo gŵn ac yn mynd allan i gael swper.

A dyna'r unig beth mae hi'n wneud.

Dw i'n dweud, "Mam, pam nad wyt ti'n newid i wisgo gŵn ar gyfer swper?"

Mae hi'n dweud, "Dw i yn gwneud, 'gŵn nos' yw e, nawr brysia a bwyta'r ffa pob 'na'n glou!"

Dyw fy mywyd i'n ddim byd tebyg i un Rhian Rhisiart.

Mae hi'n **ddydd** **Mercher**, ac mae Dylan a fi'n gweithio ar ein harddangosfa.

Mae'n mynd i fod wir yn dda.

Dw i'n siŵr o hynny.

Mae Tomos Howells yn gofyn i Mrs Prydderch a gaiff e ymuno â ni os yw e'n addo â'i ddwy law ar ei galon y bydd e'n ymddwyn yn hollol iawn, wir yr.

Ac mae Mrs Prydderch yn dweud, "Byth bythoedd, Tomos Howells." Yna mae'n chwerthin.

Dw i ddim yn hoffi pan fydd Mrs Prydderch yn chwerthin – mae'n gyrru ias i lawr fy nghefn.

Mae Dylan yn meddwl am lawer o declynnau a phethau y gallwn ni eu gwneud, a'r cyfan sydd yn rhaid imi ei wneud yw benthyg eilliwr trydan Dad a chas powdr wyneb Mam, y tostiwr a chwplwl o fân bethau eraill, ac yna mae Dylan yn dweud y gall e eu troi nhw'n declynnau arbennig Rhian Rhisiart, yn setiau radio symud a siarad, a thros-

glwyddyddion a phob math o bethau clyfar fel yna.
Dw i ddim yn gwybod sut mae Dylan Walters yn
gwybod hyn i gyd achos dw i ddim.

Mae e'n dweud bod ei dad yn arfer ei helpu cyn
iddo fynd i ffwrdd i rywle.


Ddaeth e byth 'nôl.

Ond cyn i hynny ddigwydd roedden nhw'n arfer
gwneud llawer o bethau defnyddiol gyda'i gilydd.
Nawr mae Dylan yn eu gwneud nhw ar ei ben ei
hun, yn y sied.

Lwcus bod Dylan mor glyfar achos mae Mam yn
rhy brysur yn y ganolfan gymunedol i helpu.
Mae hi'n dweud y bydd yn rhaid i bawb wneud
eu te eu hunain achos mae hi'n dal i helpu Prys i
ddod o hyd i le i fyw.

Dw i'n gwybod bod hyn yn bwysig, ond mae
cardigan sydd â jam arni ac sydd angen cael ei
golchi'n bwysig hefyd.

Mae Mam yn dweud, "Dwed wrth Tad-cu am
ddangos iti sut i ddefnyddio'r peiriant."



Dyw cadw tŷ ddim yn un o gryfderau Tad-cu –
ddim rhagor,

a phob dim yn llawn technoleg a phopeth.
'Slawer dydd, roedd golchi'n golygu dwy law a
darn o sebon ac yna rhwbio.

Dw i'n gorfod glanhau'r basn ymolchi,
dyna un o'r pethau dw i'n gorfod eu gwneud.
Elli di ddychmygu Rhian Rhisiart yn glanhau'r
basn ymolchi?

Yr ateb yw ALLA I DDIM oherwydd mae Mrs
Derfel ganddi sy'n gofalu am bopeth.

Mae Rhian Rhisiart yn rhy brysur yn datrys
troseddau i lanhau basnau ymolchi.

Mae Mam yn dweud os bydda i'n cwyno am
hyn y bydd hi'n gwneud imi lanhau'r tŷ bach.
Dw i'n dechrau ystyried ffonio'r Comisiynydd
Plant.

Y gwahaniaeth rhwng fy rhieni i a rhieni Rhian
yw bod mam a thad Rhian yn rhoi popeth mae
Rhian eisiau iddi,

sef y rhan fwyaf o bethau.

A

dyw fy rhieni i
ddim.

Ar ôl imi lanhau, dw i'n mynd i fy ystafell.

Dw i'n ceisio bod ar fy mhen fy hun er mwyn imi
gael meddwl a chael hyd i atebion i gwestiynau
mawr.

Ond mae'r hen lipryn bach, Gwyn, yn rhuthro i
mewn ac fel arfer mae'n parhau am ryw nonsens.
Mantais bod yn unig blentyn yw y gallet gael dy
ystafell dy hun heb orfod dioddef twpsod yn
tarfu arnat ti.

Hefyd, byddwn i'n fwy tebygol o gael arian
poced ychwanegol er mwyn anfon am wats
tanddwr newydd Rhian Rhisiart, sydd yn
synhwyro celwyddau, am 24.99 punt!

Rwyf ti'n gallu cael rhywun i'w wisgo fe a bydd
e'n dweud wrthot ti a ydyn nhw'n dweud
celwydd achos pan fyddan nhw'n dweud

celwydd mae eu pwls nhw'n cyflymu ac yna
mae'r wats yn gwneud sŵn!

Mae Siriol yn dweud nad yw e ddim wir yn
gweithio os ydyn nhw wedi bod yn rhedeg achos
wedyn bydd eu pwls nhw'n gyflym beth bynnag.

Ac yna rhaid iti ofyn i ti dy hun,
'Ydyn nhw wedi bod yn rhedeg,
neu ydyn nhw'n dweud celwydd ac efallai eu
bod nhw'n dweud celwydd eu bod nhw wedi
bod yn rhedeg?'

Ond sut rwyf ti'n gwybod hynny?

Mae Siriol hefyd yn dweud ei fod e'n gollwng o
dan y dŵr. Ond mae e'n wych beth bynnag,
achos mae llun o Rhian Rhisiart yn ei ganol ac
mae bysedd y wats yn dod o'i thrwyn, ac mae bys
yr eiliadau ar ffurf

pryfyn. 

Y peth arall dw i'n meddwl amdano yw Siriol, ac
efallai mai yno ar wyliau mae hi ac nid wedi'i
herwgipio gan ddynion o'r gofod, ac os yw hi ar


wyliau, pam na ffwdanodd hi ddweud wrtho i ei
bod hi'n mynd?

Roedd Rhian Rhisiart yn eistedd yn ei chadair fyfyrion
arbennig ar y to.

Roedd Mrs Derfel wedi gwneud diod yn llawn
fitaminau iddi i helpu ei hymennydd i feddwl yn gynt.

Wrth iddi sipian, edrychodd yn fanwl ar ei theclyn
diweddaraf. Roedd y Rheolwyr wedi'i roi iddi pan
gafodd hi ei galw i'r Pencadlys.

Roedd y teclyn yn eithaf diddorol wir. Bag i'w gario
ar eich cefn oedd e, ac roedd yn agor i ffurfio pâr o
adenydd digon mawr i ferch un ar ddeg oed. Cynllun
newydd sbon, yn syth o'r labordy. Petai Rhian yn cael
ei dal rywbryd mewn man cyfyng, yn uchel i fyny, ar
ben adeilad efallai, gallai neidio i ffwrdd a gleidio'n
ddiogel i lawr. Wyddech chi byth pryd byddai angen
iddi wneud hynny.



Yn yr ysgol, ddydd
lau,

dyfala pwy sydd
wedi ymddangos o
unman? Siriol
Morris ac mae hi'n
gwisgo het gyda
llabedau dros ei
chlustiau.

Mae hi'n dweud iddi
fod yn Rwsia achos
bod ei mam,
Galw-fi'n-Awel, wedi
gorfod mynd i
lansio llyfrau ar y
funud gwbl olaf
un. Roedd Awel a
Myrddin wedi
meddwl, 'Beth allai
fod yn well na
mynd â Siriol?'

Anaml iawn mae rhywun yn cael cyfle i fynd i
Rwsia, meddai Siriol, a dyna pam, os bydd rhywun
yn gofyn wyt ti eisiau mynd, rhaid iti ddweud,
ydw
yn hollol.

Alla i ddim aros i ddweud wrth Siriol am yr
arddangosfa am y llyfr.

Dw i'n dweud, "Dyfala am bwy fydd ein
harddangosfa ni?"

Dw i ddim yn aros iddi ddyfalu,
dim ond dweud, "Rhian Rhisiart, yr archdditectif!"
Mae Siriol yn dweud ei fod e'n syniad gwych.
Ac wrth gwrs, mae hi'n iawn.

Mae Siriol yn dweud bod pawb yn darllen Rhian
Rhisiart yn Rwsia hefyd, a'i bod hi'n cael ei
galw'n rhywbeth mwy Rwsiaidd yn Rwsia.

Ac yna mae Siriol yn dweud,
"Chredi di fyth ond dyfala pwy gwrddais i â hi
yn Rwsia?

Haf E Madog Roberts!"


Ac mae hi'n iawn – alla i ddim credu'r peth.

Ac yna mae Siriol yn dangos llun ohoni hi'n sefyll wrth ochr Haf E Madog Roberts.

Sy'n profi ei fod e'n wir.

Dyw Haf E Madog Roberts ddim yn edrych yn debyg i'r llun ohoni hi ei hun ar gefn y llyfr.

Mae hi'n llawer hŷn a dyw hi ddim yn gwisgo siwt drowsus.



Mae hi'n fyrrach nag y dylai hi fod. Ac mae Siriol yn dweud, "Ie, dyna'r peth rhyfedd."

Mae Siriol yn dweud bod yn hollol raid imi fynd adre gyda hi i gael te achos mae ganddi anrheg imi o Rwsia.

Alla i ddim aros, ond yna dw i'n cofio bod rhaid imi gwrdd â Dylan i weithio ar ein harddangosfa.

Ar ôl imi ddweud wrth Siriol mae hi'n dweud, "Ond pam rwyd ti'n bartner i Dylan Walters? Rwyd ti i fod yn bartner i fi."

Ac yna dw i'n dweud wrthi mai Mrs Prydderch ac nid fi gafodd y syniad ac nad oeddwn i hyd yn oed eisiau gwneud arddangosfa gyda Dylan Walters ond ei fod e'n eitha da gyda syniadau a dweud y gwir a'i fod e'n eitha neis a dweud y gwir a falle na fyddet ti'n meddwl y byddai fe. Ond mae e.

Mae Siriol yn dweud, "Ond mae Dylan Walters bob amser yn ymddwyn yn **dwp** ac mae'n siŵr o wneud cawlach o bopeth."

Dw i'n dweud, "Ond mae e wedi gwneud teclynnau hollol anhygoel.

Mae e wedi wir.

A dw i'n credu y byddet ti
wir yn ei **hoffi** e.

Mae e'n hollol ddoniol

ac mae e'n gallu yfed sudd oren i fyny ei drwyn!"

Mae Siriol yn dweud,

"O wel,

os wyt ti'n hoffi Dylan Walters cymaint â hynny

fe gei di wneud dy hen arddangosfa dwp

am Rhian gyda fe."

Alla i ddim credu beth mae hi'n ddweud. Fyddai

Siriol Morris byth yn galw Rhian Rhisiart yn dwp.

Dw i'n dweud,

"Wel, ti yw'r un

aeth i ffwrdd

heb ffwdanu dweud wrtho i

dy fod ti'n mynd."

Ac mae hi'n dweud,

"Ond fe ddwedais i wrthot ti!

Fe adewais i ddwy neges!

Ac roedd un neges

o ffôn

yn Rwsia

hyd yn oed!"

A dw i'n gweiddi,

"O do fe? Wel sut na ches i
mohonyn nhw 'te?"

Ac mae hi'n gweiddi,

"Wel gofyn i Guto dy frawd a dy

dad-cu achos fe adewais i

negeseuon gyda nhw'n bendant

ac fe ddwedan nhw wrthot ti

bod hynny'n wir.

Ac fe anfonais i gerdyn post atat ti

o Rwsia!

Ac efallai na ddylwn i fod wedi
ffwdanu!"

Ac yna mae Mrs Prydderch yn gweiddi,

"A wnewch chi'ch dwy fod yn dawel os

gwelwch chi'n dda!

Dydyn ni ddim yn dioddef gweiddi

yn yr ysgol hon."

Dw i eisiau dweud wrthi ei bod hi ei hun yn

gweiddi, ond dw i'n penderfynu peidio.

Mae Siriol yn gwrthod siarad â mi drwy'r dydd.
Dydyn ni erioed wedi cael unrhyw fath o ffrac
o'r blaen.

Heblaw am unwaith pan fwytais i doesen o'i
phecyn bwyd drwy ddamwain.

Alla i ddim credu'r peth.

Dyma'r peth mwyaf ofnadwy sydd erioed wedi
digwydd yn fy mywyd yn hollol.

Dw i'n cerdded adref ar fy mhen fy hun, yn
teimlo'n ddiflas dros ben.

A dw i'n meddwl am y cerdyn post a oedd – fel
ro'n i wedi meddwl – oddi wrth Siriol, ac am y
neges roedd Blew, ein ci ni, wedi dechrau ei
bwyta a oedd siŵr o fod oddi wrth Siriol.

A'r neges doedd fy nhad-cu ddim yn gallu'i
chofio hi'n iawn, ac roedd honno wrth gwrs
oddi wrth Siriol pan oedd hi wir yn Rwsia.

Ac mae hi'n iawn –

fe geisiodd hi ddweud wrtho i.

Dw i'n ceisio darllen **RHIAN RHISIART SY'N RHEOLI** er

mwyn ceisio codi fy nghalon ond dw i'n
teimlo'n rhy lawn o deimlad diflas.

“Rhian fach! Beth rwyf ti'n meddwl ddigwyddodd fan
hyn?”

Roedd Rhian Rhisiart a Hywel Hedd yn edrych ar y
llanast oedd yn arfer bod yn stydi Mr Hedd. Roedd
rhywun wedi torri i mewn i'w sêff ac roedd yr holl
ddogfennau cyfrinachol pwysig a oedd ynddi wedi mynd.

“Mae'n edrych fel petai lladron wedi bod yma,”
ochneidiodd Rhian. “Wyt ti'n meddwl eu bod nhw wedi
cael hyd i'r pethau roedden nhw'n chwilio amdany'n
nhw?”

Dim ond syllu wnaeth Hywel Hedd. Doedd e ddim yn
gwybod beth i feddwl.

Roedd e'n dal siaced. Nid unrhyw hen siaced, ond yr
un roedd Dafydd Dryslwyn bob amser yn ei gwisgo yn
'Heddlu Hurt'.


“Allai Dafydd Dryslwyn ddim fod wedi gwneud hyn,
allai e Rhian? Hynny yw, fyddai e byth yn gwneud, na
fyddai?”

"Na fyddai, dw i ddim yn meddwl hynny, Hywel. Mae rhywbeth rhyfedd am y busnes 'ma, wyt ti'n gwybod beth dw i'n feddwl? Mae rhyw ddrwg yn y caws yn rhywle. Fe fentra i filiwn o fananas fod rhywun yn ceisio ein baglu ni. Mae rhywun eisiau inni feddwl bod Dafydd Dryslwyn yn rhan o'r cynllwyn. O oes, mae 'na ddrwg yn y caws yn rhywle."

Ddydd Gwener, mae golwg wyllt gacwn ar wyneb Mrs Prydderch ac mae hi'n dweud ei bod hi wedi cael llond bol. Mae hi'n dweud ei bod hi o ddifri'r tro hwn.

Dw i'n ceisio meddwl yn galed am beth ar y ddaear mae hi'n sôn, a hefyd sut mae'n gallu gwneud ei llygaid mor bigog.

A dw i'n meddwl pa mor debyg yw hi i'r Iarll ap Iorallt, wedi'i wisgo fel menyw.



Mae'r un aeliau gyda nhw, dw i'n siŵr...

Dw i'n cofio am y darn hwnnw yn **RHIAN RHISIART YN ACHUB Y DYDD**, a Rhian ym mharti pwysig iawn y llysgennad, ac mae hen wraig fach yno sy'n edrych yn ddiniwed a ddim yn amheus o gwbl. Ac yna mae Rhian Rhisiart yn dechrau ei hamau hi ac yn tynnu wyneb y fenyw, sy'n fasg, a darganfod mai'r Iarll ap Iorallt yw hi go iawn, ac mae e'n wyllt gacwn fod pawb yn gwybod hynny ac efallai bod yr un peth yn wir am Mrs Prydderch. Efallai petawn i'n...

"Carys Blodyn,

rwyt ti'n edrych yn amheus iawn, efallai yr hoffet ti ddweud wrth bob un ohonon ni beth sydd ar dy feddwl di?" Wrth gwrs dw i ddim yn meddwl y byddai'n syniad da imi ddweud wrth Mrs Prydderch bod ei haeliau hi fel rhai iarll dieflig.

Felly dw i'n gwneud dim ond edrych yn euog.

Mae Mrs Prydderch yn dweud, "Carys Blodyn, dw i wir ddim yn barod i ddweud wrthot ti eto, os na elli di ffwdanu i roi dy sylw i mi, yna efallai y gwnei di roi sylw i Mr Preis!"

Dw i'n aros y tu allan i swyddfa Mr Preis am efallai tua 23 munud.

Dw i'n dechrau deall sut mae'n teimlo i fod yn Dylan Walters.

Dw i'n gwneud dim ond syllu ar boster sy'n dweud

PERYGLON YN Y CARTREF

lle mae llun o fenyw'n sefyll ar stôl sigledig, yn newid bwlb golau, tra bo baban bach yn tynnu ei sylw hi ac yn chwarae â siswrn.

Rhaid bod Dylan Walters wedi edrych tipyn ar y poster hwn.

O'r diwedd, mae Mrs Morgan yn dweud, "Mae Mr Preis wrthi'n brysur yn gwneud gwaith pwysig. Fydd dim amser gyda fe i roi pryd o dafod iti."

Felly dw i'n mynd 'nôl i'r ystafell ddosbarth.

Yr hyn sy'n poeni Mrs Prydderch yw bod, "Rhywun, ac mae gen i syniad reit dda pwy, wedi dwyn cwpan enillwyr yr arddangosfa."

Mae Dylan Walters yn cael ei anfon adre'n syth!

Mae Mrs Prydderch yn dweud mai fe sydd ar fai'n siŵr, oherwydd, yn ddigon syml, fe sydd wastad ar fai.

A hefyd, roedd rhywun wedi'i weld e'n loetran o gwmpas y cwpwrdd gwydr lle mae'r cwpan yn cael ei gadw.

A nawr mae'r cwpan ar goll a does dim angen bod yn athrylith i ddeall beth sydd wedi digwydd.

Mae Mrs Prydderch yn dweud na fydd Dylan yn cael cymryd rhan yn y gystadleuaeth achos ei fod e wedi cyrraedd lefel o ddrygioni nad yw'n cael ei dioddef.

Dw i'n hollol drist oherwydd nawr efallai y caf fi fy nhaflu allan o'r gystadleuaeth hefyd.

A dw i wedi colli dau bartner.

Ac os na fydda i'n ofalus, bydd yn rhaid imi weithio gyda Tomos Howells.

Dw i'n cael **penwythnos** hollol ddiflas a digalon oherwydd dyw fy ffrind gorau, Siriol Morris, ddim yn fodlon bod yn ffrind gorau imi rhagor.

A phan af i draw i dŷ Dylan Walters mae'n dweud nad yw e am ffwdanu gorffen y model am lyfr Rhian gan ei fod e wedi'i daflu o'r gystadleuaeth. Mae Dylan Walters yn dweud, "Dyw hi ddim yn deg achos nid fi wnaeth."

Dw i'n dweud, "O wir?"

Mae'n dweud, "Pam byddwn i'n dwyn y cwpan a finnau'n meddwl y bydden ni'n ei ennill e?"

Sy'n bwynt eithaf da a dweud y gwir.

Y peth arall yw, fydd Dylan Walters byth yn dweud nad yw e wedi gwneud rhywbeth oherwydd mae e'n hollol falch o'i ddrygioni.

Felly mae'n amlwg nad fe sydd ar fai.

Y cyfan dw i'n ei wybod yw, dw i'n bendant ddim yn mynd i ennill.

Does gen i ddim un o declynnau Rhian, dim ond hanner model sydd heb ei orffen a beth bynnag alla i ddim meddwl am un peth yn yr

arddangosfa sy'n dysgu rhywbeth inni.

Dw i ddim hyd yn oed wedi gwneud fy mathodynau Rhian ac roedden nhw'n mynd i fod yn hollol boblogaidd.

Dw i'n ystyried rhoi'r ffidil yn y to.

Ar ôl cyrraedd adre, dw i'n ffonio Mam-gu. Dw i'n dweud y cyfan wrthi am y cwpan a sut mae'n debyg nad Dylan Walters wnaeth a'i fod e mewn dyfroedd dyfnion iawn am rywbeth na wnaeth e a bod

popeth yn ofnadwy o amheus

ac yn

hollol anghywir.

Dw i'n dweud, "Dyw'r peth ddim yn gwneud synnwyr, Mam-gu."

Sef yn union beth fyddai Rhian Rhisiart yn ei ddweud petai rhaid iddi hi ddatrys y dirgelwch hwn.

Ac mae Mam-gu'n dweud, "Os na wnaeth Dylan, yna rhaid bod rhywun arall wedi gwneud, a'r cwestiwn mawr yw pwy?"

Dw i'n dweud, "Ie, pwy?"

Ac mae Mam-gu'n dweud, "Mrs Owens!"

Dw i'n dweud, "Pwy yw Mrs Owens? Dw i ddim yn meddwl bod unrhyw un o'r enw Mrs Owens yn fy ysgol i?"

Ac mae Mam-gu'n dweud, "Na, na. Dw i i fod draw yn chwarae cardiau yn nhŷ Mrs Owens – dw i'n hwyr!"

Mae hi'n dweud, "Bydd yn rhaid imi fynd, ond Carys, efallai y gallet ti ddatrys y dirgelwch."

Dw i'n dweud,

"Ond sut galla i?

Dw i ddim yn un sy'n gallu datrys dirgelwch."

Mae Mam-gu'n dweud, "Rhaid dy fod ti wedi dysgu rhywbeth am ddatrys dirgelwch ar ôl darllen holl lyfrau ditectif Rhian Rhisiart.

Rho wybod imi sut hwyl gei di."

Dw i'n eistedd am oesoedd yn meddwl am beth ddwedodd Mam-gu, a pho fwyaf dw i'n meddwl am y peth, mwyaf dw i'n meddwl ei bod hi'n iawn. Rhaid fy mod i wedi dysgu llawer am ddatrys

dirgelwch gan Rhian Rhisiart, ac os galla i ddatrys y dirgelwch hwn, yna galla i brofi nad Dylan Walters yw lleidr y cwpan.

Ac os galla i brofi nad fe yw lleidr y cwpan, yna galla i brofi fy mod i wedi dysgu rhywbeth o ddarllen llyfrau Rhian Rhisiart, y mae Mrs Prydderch yn hoffi eu galw nhw'n sothach, er eu bod nhw mewn gwirionedd yn llawn cyngor da a gwybodaeth hollol ddefnyddiol a chlyfar.

Dw i'n mynd lan llofft yn gyflym.

Y peth cyntaf yn hollol mae'n rhaid ei wneud yw gwneud rhestr.

Dyna beth mae Rhian bob amser yn ei wneud.

Mae ganddi gyfrifiadur pitw-bach arbennig i ysgrifennu arno.

Ond dyw hi ddim yn hollol angenrheidiol cael un, a does gen i ddim un.

Hefyd, does dim angen chwyddwydr, oherwydd mae hynny'n hen ffasiwn.

Dim ond dy syniadau a beiro a thamaid eithaf

bach o bapur.

Yna rwyf ti'n ysgrifennu'r cliwiau i gyd.


Y cliwiau pwysicaf yw'r bobl rwyf ti'n eu drwgdybio.

Yr enw arnyn nhw yw pobl ddrwgdybiedig.

Fy mhrif bobl ddrwgdybiedig fyddai

Mrs Prydderch ac Efa Evans.

Mae'n debyg nad Mrs Prydderch wnaeth,



drwgdybiedig oherwydd allai e byth fod wedi meddwl am y peth.



er y byddwn i wrth fy modd petai hi wedi.

Mae'r dystiolaeth i gyd yn dangos mai Efa Evans wnaeth oherwydd mae hi siŵr o fod yn hollol eiddigeddus o'n syniad ni ac yn ysu am gael un da ei hun, ond yn methu.


Tomos Howells yw fy nhrydydd person tipyn bach yn ddrwgdybiedig, ac mae cael tri pherson ar y rhestr bob amser yn beth da.

Mae tri'n rhif cyffredin o bobl ddrwgdybiedig.

Dyw Bleddyn Bifan ddim yn berson



Dyw e byth yn meddwl am ddim o'i ben a'i bastwn ei hun heb gopïo rhywun arall a hefyd bachgen neis-neis yw e.



Peth arall mae'n rhaid imi ei ysgrifennu yw pryd yn union sylweddolion nhw fod y cwpan ar goll??? Does neb wedi'i weld e yn y cwpwrdd gwydr ers i Mr Griffiths lanhau popeth.

Felly, mae'n ddigon posibl ei fod e wedi cael ei ddwyn cyn hynny, pan oedd toiledau'r bechgyn wedi'u gorlifo, dros bythefnos yn ôl, bron. Mae hyn yn gwneud imi feddwl, ac yna dw i'n mynd i gors, felly dw i'n darllen ychydig bach mwy.

Roedd Rhian Rhisiart yn meddwl yn galed.

Beth oedd ystyr hyn i gyd? Roedd hi'n teimlo y gallai fod yn amser da i drafod popeth â'i ffrind, Hywel Hedd. Roedd Hywel yn dda am ddatrys problemau.

Roedd e'n ddeallus iawn.

Deialodd y rhif.

"Helo Hywel, sut mae pethau?"

"Ti sy 'na Rhian? Ro'n i'n gobeithio y byddet ti'n ffonio. Dw i'n sownd fan hyn yn y cinio diflas 'ma. Mae fy nhad yn diddanu'r holl enwogion a phobl y

llywodraeth ac mae'r cyfan yn ddiflastod pur."

Roedd tad Hywel Hedd yn llysgennad ac roedd e bob amser yn gwahodd y bobl bwysicaf ac enwocaf i gael swper. Roedd e'n hoffi dangos ei fod e'n ddyn teulu ac roedd e'n mynnu bod pob un o'i bump o blant yn dod i'r achlysuron cymdeithasol hyn bob amser.

"Wyt ti'n meddwl y gallet ti ddianc?" gofynnodd Rhian.

"Dim gobaiith caneri. Allet ti ddod draw fan hyn, falle?"

Roedd Huws yn cael noson i ffwrdd, a doedd neb i'w gyrru draw i dŷ Hywel, ond doedd dim ots, gallai hi fynd ar ei beic.

Wrth gwrs, nid beic cyffredin oedd beic Rhian Rhisiart ac roedd ffôn, hybiwr-roced a dyfais wrthymosod arno.

"Mi fydda i draw mewn pum munud," meddai Rhian, a dringo allan o ffenestr ei hystafell wely.

Y person dw i wir eisiau siarad â hi yw Siriol
Morris ond dyw hi ddim yn siarad â fi.

Dw i'n dweud wrth Mam sut

mae popeth wedi'i ddifetha,

ac nad yw Siriol a fi'n

ffrindiau gorau hollol

rhagor.

Ac na fydd pethau byth yr un fath eto.

Byth bythoedd.

Mae Mam yn dweud, "Dw i'n credu dy fod ti'n
poeni gormod am bethau.

Os nad yw Siriol yn siarad â ti, efallai y dylet ti
fynd draw i siarad â hi.

Dyw ffrindiau go iawn ddim yn gadael i ryw
ddadl bitw fach ddifetha pethau rhyngddyn nhw.
Tasen nhw'n gwneud, fyddai neb yn siarad â neb
arall."

Mae hi'n dweud, "Pam nad ei di i weld a hoffai
Siriol ddod draw i gael te?

Rhaid bod sosejys yma yn rhywle."

Dw i'n cerdded yn araf iawn achos dw i'n teimlo

braidd yn sâl – dw i'n poeni'n bryderus y bydd Siriol
Morris yn cau'r drws ffyrnt yn fy wyneb i.

Dw i'n canu'r gloch. Nid cloch drws gyffredin
yw hi wrth gwrs.

Daeth y Morrisiaid â hi'n ôl o'r Dwyrain Pell.

Mae wedi'i gwneud o diwbiau pren ac mae'n
gwneud sŵn prenaidd.

Dim ond bob hyn a hyn mae ein cloch drws ffyrnt
ni'n gweithio – dwyt ti byth yn gwybod pryd.

Mae Siriol Morris ei hun yn ateb y drws.

Mae hi'n gwisgo sliperau blewog.

O Rwsia, siŵr o fod.

Mae hi'n dweud, "Helo, Carys Blodyn,"
fel petai dim byd o'i le, er ei bod hi'n chwarae
â'i bysedd o hyd.

Dw i'n dweud, "Helo Siriol, hoffet ti ddod draw
i gael te?


Byddwn ni'n cael sosejys, siŵr o fod."

Mae Siriol yn dweud, "Fydd Dylan Walters yno?"

Dw i'n dweud, "Na'n hollol."

Mae Siriol yn ateb, "Dof i draw am chwech."
Yna dw i'n mynd adref yn teimlo ychydig bach
yn eithaf gwell.
Er fy mod i'n sylwi nad yw hi'n rhoi fy anrheg o
Rwsia imi.

Wrth imi gyrraedd adre, dw i bron â chael fy
mwrw i'r llawr yn fy nghyntedd fy hun gan yr
holl gŵn sydd gyda ni erbyn hyn.
Maen nhw'n cyfarth fel pethau gwyllt, ac mae



Mam yn dweud ei bod hi ar ben ei thennyn.
Mae Dad yn dweud nad yw e erioed yn ei fywyd
wedi bod mor awyddus i fynd 'nôl i'r gwaith.
Mae Mam yn dweud ei bod yn well i Tad-cu
ddod o hyd i rywle i'w rhoi nhw i gyd, h.y. nid
yn y tŷ yma.

Dw i'n mynd i mewn i'r gegin,
a dyna lle mae Iola Lewis.

Un o ffrindiau Lowri yw hi, sy'n rhyfedd achos
dyw Lowri ddim yn y tŷ a dim ond Guto a Iola
sydd yno ar eu pennau eu hunain.

Yn eistedd yn
agos iawn
at ei gilydd.

Ac mae Guto'n
gwneud cwpanaid
o de mintys iddi, ac
mae e'n siarad ac yn
dweud pethau fel,



“Hoffet ti gael tost a mêl?” a,

“Dw i wir yn hoffi dy wallt di fel 'na,
mae e wir yn gweddu i ti.”

Wrth gwrs, dw i'n rhyfeddu.

Pan dw i'n dweud wrth Mam am y peth mae
hi'n dweud, “Ie, Iola yw cariad newydd Guto.

Dw i'n credu ei fod e wir yn ei hoffi hi.”

Mae hi'n dweud, “Mae Guto'n llawer gwell
nawr gan fod rheswm gyda fe i ymolchi, ond
mae Lowri'n waeth nag erioed.”

Mae Mam yn dweud, “Dyw Lowri ddim yn
siarad â Guto achos ei bod hi'n teimlo bod Guto
wedi dwyn ei ffrind. A dyw Guto ddim yn
siarad â Lowri achos bod Lowri wedi dweud
wrth Iola fod ei stafell e'n drewi.”

Sy'n wir.

Mae Mam yn dweud, “Er mwyn popeth! Pam
na all pawb fod yn ffrindiau?”

Pan yw Iola'n gweld Fflos, sy'n gi blaidd wrth
gwrs, mae hi'n sgrechian fel peth gwyllt sy'n

gwneud pethau'n hollol waeth.

Mae'r cŵn i gyd yn dechrau cyfarth.

Ac mae Iola'n dweud na all hi ddod draw rhagor
achos bod cŵn blaidd yn codi arswyd arni.

A dyw hi ddim yn berson cŵn, a dyna ni.

Mae hwyliau Guto'n newid.

Mae e'n dweud, “Dw i'n casáu byw fan hyn.”

Mae Dad yn dweud, “Dw i'n cytuno, mae'r tŷ
yma'n mynd rhwng y cŵn a'r brain.”

Mae Mam yn edrych arno'n gas.

Yna mae Mrs Stephens yn dod draw.

Mae hi'n gwisgo cyrlers ac wedi cael hen lond bol.

Mae hi'n dweud ei bod hi'n ceisio ymlacio yn y
bath ond ei bod hi'n anodd ymlacio pan fydd tri
o gŵn yn udo'r ochr draw i'r wal.

Mae hi'n dweud bod hyn yn tarfu ar yr heddwch
ac mae ei nerfau hi'n rhacs yn llythrennol.

Mae hi'n dweud ei bod hi'n gwneud cwyn i
orsaf yr heddlu amdanon ni.

Mae Mam yn dweud y byddai hi'n ddigon hapus
i'w gyrru hi i lawr yno.

Yna mae cloch y drws yn canu a Dylan Walters sydd yno.

Mae e'n dweud, "Eisteddwch!" ac mae'r cŵn i gyd yn eistedd, ac mae e'n dweud, "Tawelwch!" ac mae'r cŵn i gyd yn tawelu.

Mae e'n dweud bod ganddo gŵn gartre, a'i fod e'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn eu hyfforddi nhw.

Mae ei fam yn cerdded â chŵn pobl eraill, ac mae e wedi dysgu eithaf tipyn am drin cŵn.

Mae Mam yn dweud ei bod hi'n ddiolchgar iawn ac a hoffai e aros i gael swper? Rydyn ni'n cael sosejys.

Ac mae Dylan Walters yn dweud, "Diolch yn fawr."

Ond wrth gwrs mae hynny'n drychineb hollol pan dw i'n cofio bod Siriol Morris yn dod draw. Beth



mae hi'n mynd i'w ddweud pan fydd hi'n gweld Dylan Walters? Efallai na chaf i byth yn hollol faddeuant ganddi. Yna mae cloch y drws yn canu. Mae e'n gwneud rhyw fath o sŵn PING achos bod y PONG wedi mynd, sy'n drueni.

Mae gan Rhian Rhisiart gloch drws sy'n canu cân. Pan dw i'n agor y drws, Siriol Morris sy 'na.

Mae hi'n gweld y cŵn ac mae hi ar ben ei digon.

Mae Siriol

Morris yn dwlu

ar gŵn ond all y

Morrisiaid ddim cael

ci achos maen nhw

wastad yn codi eu pac ac


yn gadael y wlad ar yr

esgus lleiaf. Ac mae'n

amhosibl

gwneud

hynny pan



fydd ci gyda chi. Dyna pam mae'n debyg nad ydyn ni byth yn mynd i unman.

Mae Dylan yn dangos i Siriol sut i wneud iddyn nhw eistedd a dangos pawen.

Mae e'n dweud, os yw hi eisiau, y gall hi ddod draw a mynd â'i gŵn e am dro weithiau ar ôl yr ysgol.

Mae Mam yn dweud, "Mae croeso iti fenthyg y ddau yma os wyt ti eisiau gweld sut brofiad yw bod yn berchennog ar gi."

Tynnu coes mae hi ond mae Siriol yn ffonio Awel a Myrddin beth bynnag a gofyn a all hi ofalu am Fflos a Penri, dim ond am wythnos, neu bythefnos efallai tan i Prys ddod o hyd i gartref hen bobl newydd sy'n derbyn anifeiliaid anwes.

Ac mae Awel yn dweud y byddai'n brofiad da siŵr o fod i Siriol fod yn gyfrifol am ofalu am anifail.

Ac felly'r ateb yw popeth yn iawn, efallai.

Mae Mam yn dweud, "Diolch byth am hynny."

Mae Guto'n mynd i ffonio Iola ac mae Siriol yn penderfynu nad yw Dylan cynddrwg â hynny wedi'r cyfan.

Ddydd Llun, nôl yn yr ysgol, mae Dylan a Siriol yn siarad am gŵn yn ddiddiwedd.

Mae Siriol wedi anghofio popeth am beidio â hoffi Dylan Walters ac am ei alw'n llipryn a hanner. Pan dw i'n gofyn, mae hi'n dweud nad oedd hi byth ddim yn ei hoffi, doedd hi ddim eisiau iddo wneud llanast o bopeth i ni a'r arddangosfa, dyna i gyd.

Mae hi'n dweud, "Os yw e'n mynd i fod yn ddylanwad defnyddiol yna mae croeso iddo fod yn rhan o'n pâr ni."

Yr unig broblem yw nad yw Dylan yn cael gwneud yr arddangosfa oherwydd ei fod e'n dal **mewn helynt** am ddwyn y cwpan bach.

Dw i wedi bod yn gweithio ar ryw fath o declyn fy hun, ond Dylan oedd yn gwneud darn gorau'r arddangosfa, a dw i'n poeni y bydd popeth yn anobeithiol hebdo.

Mae Siriol yn dweud, "Beth bynnag, allwn ni ddim ennill y gystadleuaeth os na allwn ni feddwl am rywbeth rydyn ni wedi'i ddysgu o ddarllen

llyfrau Rhian Rhisiart.

A dyna'r broblem, allwn ni ddim."

Dw i'n dweud, "Ond dyna dw i wedi bod yn meddwl ei ddweud wrthot ti.

Dw i'n credu y gallwn ni ddatrys y dirgelwch ac ennill y cwpan achos mewn gwirionedd rydyn ni wedi dysgu eithaf tipyn gan Rhian Rhisiart."

Dw i'n dweud wrth Siriol Morris am fy nghynllun ac mae hi'n dweud y bydd hi'n 'bendant yn helpu'.

A 'waw, dyna gyffrous.'

Rydyn ni'n cyf-weld â phawb i weld beth maen nhw'n wybod a beth dydyn nhw ddim yn wybod, a beth dydyn nhw ddim yn gwybod maen nhw'n wybod.

Mae Hywel Hedd bob amser yn dweud hynny: "Weithiau dyw pobl ddim hyd yn oed yn gwybod beth maen nhw'n wybod achos dydyn nhw ddim wedi meddwl am y peth. Ond tasen nhw'n gwneud, bydden nhw'n sylweddoli eu bod nhw'n gwybod mwy nag oedden nhw'n feddwl."

Dw i'n credu fy mod i'n gwybod beth mae'n ei olygu.

Rydyn ni'n holi Anwen Tewdwr.

Dw i'n dweud ein bod ni'n ymchwilio i'r cwpan sydd ar goll... a phryd yn union aeth e ar goll, h.y. efallai ei fod e wedi cael ei ddwyn yn syth ar ôl i doiledau'r bechgyn orlifo.

Ac mae Anwen yn dweud, "Ti'n gwybod beth, Carys Blodyn, dw i'n credu y gallai fod rhywbeth gyda ti yn fan 'na."

Sy'n rhyfedd achos dyna'n union beth fyddai Hywel Hedd yn ei ddweud.

Dw i'n gofyn iddi ydy hi'n meddwl mai Efa Evans wnaeth.

Ac mae hi'n dweud, "Wel, y peth yw, roedd Efa Evans i ffwrdd o'r ysgol â fflw arni ac felly doedd hi ddim yno ar yr adeg pan ydyn ni'n meddwl aeth y cwpan bach ar goll."

Wrth gwrs mae hi'n iawn.

Dw i'n dweud, "Beth am Tomos Howells, wyt ti'n meddwl mai fe wnaeth?"

Ac mae Anwen yn dweud, "Nac ydw, ddim wir, achos dyw Tomos Howells ddim yn gwneud dim heb i Dylan Walters ddweud wrtho fe."

Ac wrth gwrs, mae hi'n iawn.

Dw i'n dweud, "Beth am Mrs Prydderch, wyt ti'n meddwl mai hi aeth â'r cwpan?"

Ac mae hi'n dweud, "Nac ydw."

Dw i'n dweud, "Pam rwyd ti'n meddwl hynny?"

Ac mae hi'n dweud, "Achos mai hi yw'r athrawes."

Byddai Anwen Tewdwr yn dditectif arbennig o dda oherwydd ei bod hi'n cofio manylion yn arbennig o dda.

Felly, os nad Mrs Prydderch wnaeth, nac Efa Evans, na Tomos Howells, pwy wnaeth? Allwn ni ddim meddwl am neb, ac mae ein cliwiau ni i gyd yn arwain at DDIM BYD, sef rhywbeth mae Rhian weithiau'n ei ddweud wrth ei bwtler, Huws.

Ac mae Huws yn aml yn dweud, "Weithiau mae'n rhaid i ti edrych ar bethau wysg ^ghochr

ac yna fe gei di
ddarlun cliriach."

Dw i ddim yn deall hynny, ond ar ôl cyrraedd nôl i dŷ'r Morrisiaid rydyn ni'n gofyn i Awel ac mae hi'n dweud, "Dw i'n credu mai'r hyn mae Huws yn ei feddwl yw, os dych chi'n meddwl am rywbeth mewn ffordd wahanol yna weithiau mae'n haws dod o hyd i'r ateb."

Mae hi'n dweud, "Mae'n rhaid i chi feddwl pam y byddai unrhyw un yn dwyn y cwpan yn y lle cyntaf. Does dim pwynt cael cwpan yr enillydd os nad yw eich enw chi arno'n dweud

'Enillydd'

a does dim pwynt ei gael e os na allwch chi ei ddangos e i bawb yn y diwrnod agored."


Mae hi'n dweud, "Efallai tasech chi'n meddwl bod y cwpan ar goll yn lle'i fod e wedi'i ddwyn, yna efallai y deuech chi o hyd iddo fe."

Mae Awel wir yn deall y pethau hyn achos mae hi'n ysgrifennu nofelau ditectif.

Mae'n treulio ei bywyd yn datrys pethau.

Ddydd Mawrth,

mae Siriol Morris a
finnau'n brysur yn chwilio
am y cwpan. Rydyn ni'n
edrych ym mhob man, hyd yn oed
yn y biniau anferth ag olwynion.
Rydyn ni'n rhoi'r gorau iddi pan fydd
Siriol bron â chwympo i mewn. Rhaid
inni nôl Mr Griffiths i achub sbectol
Siriol, sy'n anffodus wedi cwmpo oddi
ar ei thrwyn, i mewn i'r sbwriel.
Mae Mr Griffiths yn eithaf crac ac yn
dweud bod ganddo well pethau i'w gwneud
na dringo i mewn ac allan o finiau sbwriel.
Mae e'n dweud os bydd hyn yn digwydd
eto, y bydd e'n meddwl o ddifrif am fynd
â sbectol Siriol Morris a'u cadw nhw am
byth yn ei gwpwrdd.
Fyddai Mr Griffiths byth yn gwneud hynny
go-iawn oherwydd dyw e ddim mor gas ag
mae e eisiau iti feddwl.



Ond mae'n rhoi syniad da imi.

Ti'n gweld, un lle dydyn ni ddim wedi edrych ynddo yw cwpwrdd offer glanhau Mr Griffiths,

ac fe allai'r cwpan fod wedi mynd yno drwy ddamwain pan oedd Mr Griffiths yn glanhau.

Mae Siriol yn dweud, "Mae'n annhebygol iawn, ond yn werth rhoi cynnig arni."

Dyna'r hyn mae Hywel Hedd yn ei ddweud ym mhob stori.

Yn anffodus iawn dros ben, mae Siriol Morris a finnau'n cael ein dal wrth inni chwilio a chwalu yng nghwpwrdd Mr Griffiths.

Mae Mr Griffiths yn bendant yn hynod hollol grac.

Mae'n dweud, "Mae cwpwrdd y gofalwr yn rhywle nad oes hawl gan ddisgyblion i fynd i mewn iddo. A dyna ddiwedd arni."

Hyd yn oed yn fwy hollol anffodus, mae Mrs Prydderch yn mynd heibio wrth i Mr Griffiths roi pryd o dafod inni ac wedyn rydyn ni mewn

helynt
a hanner.

Mae Mrs Prydderch yn dweud, "Wel, Carys Blodyn, dw i ddim yn synnu cymaint at dy ddiffyg ymddygiad da cwbwl warthus di." Beth bynnag mae hynny'n ei feddwl.

"Ond ti, Siriol Morris, mae'n ddrwg gen i, ond ro'n i wir yn meddwl bod mwy o synnwyr yn dy ben di."

Mae'n dweud, "Wel, gan fod y ddwy ohonoch chi mor hoff o gypyrddau, fe gewch chi aros i mewn yn ystod amser egwyl a rhoi trefn ar

yr holl
lyfrau yn

fy nghwpwrdd I"

Wrth gwrs, mae hyn yn boendod oherwydd rydyn ni'n ceisio datrys dirgelwch.

Ac mae gennym ni bethau pwysicach i'w gwneud na threfnu pethau i rywun yn dechrau â P sy'n rhy ddiog i dacluso ei chwpwrdd ei hun.

Mae'n cymryd oesoedd oherwydd rydyn ni'n cymryd tro i ddarllen RHIAN RHISIART SY'N RHEOLI i'n gilydd.



Ar ôl ymlwybro drwy goridoriau troellog dirifedi, a dringo grisiau cerrig diddiwedd, daeth Rhian Rhisiart at ddrws dur. Roedd hi'n siŵr mai y tu ôl i'r drws hwn roedd y seren deledu anffodus yn cael ei ddal.

Agorodd Rhian y clo heb fawr o drafferth, ac yno, yn edrych braidd yn ddryslyd, roedd Dafydd Dryslwyn.

"Wel, dw i'n falch o dy weld di," ochneidiodd Dafydd. "Ro'n i'n meddwl na fyddwn i byth yn dianc o fan hyn."

"Paid â phoeni, Dafydd. Mi helpa i di i ddianc," sibrydodd Rhian wrth ddatod clymau'r seren deledu blinedig.

"Cymer fy adenydd hofran. Adenydd i ferch un ar ddeg oed ydyn nhw wir, ond wrth dy olwg di Dafydd, rwyf ti wedi colli llawer o bwysau, a beth bynnag, does ganddon ni ddim llawer o ddewis."

"Beth amdana't ti?"

"Paid â phoeni amdana i, Dafydd, mi fydda i'n iawn."

"Mae arna i ddyled fawr i ti," meddai, cyn neidio o'r ffenestr bitw fach a hofran am ryw 200-a-rhywbeth metr i'r llawr islaw.

Dyna pryd clywodd Rhian lais y tu ôl iddi a roddodd fraw iddi.

"Felly dyma ni'n cwrdd eto, Rhian Rhisiart – poendod o ferch ysgol sy'n tarfu ar fy nghynlluniau o hyd. Wyt ti wir yn meddwl y gelli di fod yn fwy cyfrwys na'r athrylith diefflig, yr larll ap lorallt, wyt ti?"

"Wel, ro'n i'n meddwl y byddwn i'n rhoi cynnig arni," meddai Rhian yn gellweirus, gan geisio swnio'n ddidaro er bod ei chalon yn curo mor gyflym fel mai prin y gallai anadlu.

"Wel, gan dy fod ti yma, cystal imi ddweud wrthot ti beth yw fy nghynllun. Mae'n anhygoel o glyfar."

Mae Siriol wrthi'n darllen pan dw i'n bwrw rhywbeth yn ddamweiniol oddi ar y silff dw i'n ei thacluso, ac mae'n ei bwrw hi ar ei phen.

Wnei di
fyth yn hollol gredu'r peth,

ond y cwpan bach yw e.

Dw i eisiau gwybod beth mae'n ei wneud yng nghwprdd Mrs Prydderch.

Yr union eiliad honno mae Mrs Prydderch yn galw, "Carys Blodyn, Siriol, wnewch chi ddod allan o'r cwpwrdd 'na ac eistedd i lawr."

A dw i'n dweud, "Mrs Prydderch, do'n i ddim yn gwybod bod dau gwpan ar gyfer enillwyr yr arddangosfa am lyfr."

Ac mae hi'n dweud, "Wel, does dim."

Dw i'n dweud, "Ond Mrs Prydderch, mae cwpan bach yn eich cwpwrdd chi ac mae'n edrych yn union fel y cwpan bach ar gyfer enillydd yr arddangosfa.

Chi'n gwybod, fel y cwpan bach mae Dylan Walters wedi'i ddwyn."

Ac wrth weld y cwpan mae Mrs Prydderch yn mynd yn goch fel tân yn union, ac yna bant â hi ar wib i weld Mr Preis.

Dyw hi ddim yn dod 'nôl am hydoedd.

Mae'n debyg i Mrs Prydderch ofyn i Mr Griffiths gaboli'r cwpan i'w gael e'n barod ar gyfer noson y diwrnod agored. Dwedodd hi wrtho am ei roi e'n

ddiogel yn y cwpwrdd, ond roedd 'na ddryswch achos roedd Mr Griffiths yn meddwl bod Mrs Prydderch yn golygu ei roi'n ddiogel yn y cwpwrdd yn ei dosbarth hi gan na fyddai angen y cwpan arni'r union ddydd Mercher hwn, ond roedd Mrs Prydderch yn golygu ei roi'n ddiogel yn y cwpwrdd gwydr.

Ar fy ffordd o'r ysgol, clywais Mrs Morgan yn dweud, "Roedd Mr Preis yn gwbl benwan a dwedodd wrth Mrs Prydderch na allai hi fynd o gwmpas yn beio pawb a phopeth am bethau na wnaethon nhw." Ac yna dywedodd Mr Griffiths, "Dw i'n cytuno'n llwyr."

Mae Siriol yn dod 'nôl i'n tŷ ni i gael te.

Pan gyrhaeddwn ni, mae hwyliau eithaf da ar Mam oherwydd ei bod hi wedi dod o hyd i un cartref hen bobl sy'n barod i gymryd anifail anwes sy'n fwy na dim ond aderyn neu bysgodyn.

Ond dim ond un ci sy'n cael mynd, h.y. Fflos neu Penri.

Dyna'r broblem.

Mae Prys yn dweud na allai ymdopi heb Fflos oherwydd maen nhw wedi bod gyda'i gilydd ers dros un ar ddeg mlynedd neu, os wyt ti'n gi, saith deg saith o flynyddoedd.

Ac mae hynny'r un oedran â Prys ei hun.

Mae e'n dweud, "Pensiynwyr ydyn ni ein dau."

Mae Penri'n llawer ifancach, ac mewn blynyddoedd cŵn,

mae e'n nes at oedran Dad.

Petai Penri'n berson yna mae'n debyg y byddai wedi bod yn yr un dosbarth â Dad ac rwy'n credu y gallen nhw fod wedi bod yn ffrindiau.

Cyn swper dw i, Siriol, Mam, Tad-cu a Prys yn mynd i edrych o gwmpas y cartref hen bobl newydd. Rhaid inni i gyd wasgu i mewn i'r car.

Ei enw yw Cartref y Machlud ac mae Siriol a fi'n meddwl bod hynny'n swnio'n hollol ramantus.

Mae pob twll a chornel wedi'i beintio mewn lliwiau hynod o lachar ac mae sticer mawr yn y

cyntedd yn dweud, 'DOES DIM RHAID ICHI FOD
YN DDWL I WEITHIO YMA, OND MAE'N HELP!'

Mae Mam yn dweud bod Cartref y Machlud mor
hyfryd am fod synnwyr digrifwch da ganddyn nhw.
Cartref teuluol yw e, sy'n golygu bod yr holl
bobl sy'n gweithio yno o'r un teulu.

Maen nhw i gyd yn gwisgo sbectol.

Elli di ddychmygu fy nheulu i'n rhedeg cartref
hen bobl gyda'i gilydd?

Achos alla i ddim.

Mae'r fenyw yng ngofal y lle, Gwenda, yn dweud
bod Cartref y Machlud yn deall pa mor bwysig yw
hi i bobl gael eu hanifeiliaid anwes personol gyda
nhw. Mae hi'n dweud y byddai hi'n braf petai
Cartref y Machlud yn gallu cymryd rhagor o
anifeiliaid, ond petaen nhw'n cymryd anifail pob
person, byddai'r lle'n edrych yn debycach i fferm
na chartref i'r henoed.


Mae Prys wedi dwlu ar y lle, yn enwedig ar ôl
gweld bod pwdin bara ar y fwydlen. Sef, yn
fy marn i, fy nghas bwdin yn hollol.

Fyddwn i ond yn fodlon ei fwyta petaet ti'n rhoi
tua dau ddeg saith punt i fi.

Mae Prys yn dweud mai'r unig beth mae e'n poeni
amdano yw beth fydd yn digwydd i Penri'r Pecinî.
Byddai'n torri ei galon petai e'n anhapus.

Mae Siriol yn dweud, "Fe ofalwn ni ar ei ôl e!
Rydyn ni wir yn dwlu ar Penri a bydden ni wrth
ein bodd petai e'n dod i fyw aton ni'n llawn amser,
a dw i'n credu bod Penri wir yn ein hoffi ni.
Dw i wedi'i weld e'n gwenu, mae'n anodd
gweld ci'n gwenu, ond dw i wedi.

Ac mae e weithiau'n dilyn Dad o
gwmpas ac weithiau mae e'n
syllu arno ac yn gwrando
arno'n canu'r piano.
Dw i'n credu ei fod e'n gerddorol,
ac mae'n debyg nad oes piano
wedi bod gyda fe erioed, ac
mae un gyda ni, a gall e
wrando arno fe bryd bynnag
mae e eisiau. Wir, nawr.



Ac fe ddown ni ag e i'ch gweld chi bryd bynnag
dych chi eisiau, Prys, wir nawr."

Mae Prys wrth ei fodd gyda'r syniad hwn ond
mae Mam yn dweud bod rhaid inni ofyn i Awel
a Myrddin gyntaf.

Beth fydd yn digwydd i Penri pan fydd y
Morrisiaid yn mynd oddi cartref?

Ac mae Siriol yn dweud y bydd Dylan Walters yn
gofalu amdano gan fod ei fam yn ofalwr am gŵn
proffesiynol, neu'n ofalwr proffesiynol am gŵn.
Rydyn ni'n ffonio Awel a Myrddin yn syth ar
unwaith yn hollol.

Ac maen nhw'n dweud, "Iawn!"

Mae wedi bod yn ddiwrnod cyffrous ofnadwy.
Bron fel y math o ddiwrnodau mae Rhian
Rhisiart yn eu cael. A nawr alla i ddim aros i
ddarllen am sut bydd Rhian yn dianc rhag yr
athrylith dieflig, yr Iarll ap Iorallt.

Achos gelli di fentro'n hollol y bydd hi'n dianc.

"Wel, mae'n edrych fel diwedd y daith i ti, Rhian
Rhisiart, y ditectif bach.

O fewn ugain munud, bydd yr ystafell gyfan yn
gorlifo â dŵr. Dw i ddim yn MEDDWL y gelli di
ddianc y tro hwn! Ha ha ha!" Ac ar y gair, dyma'r Iarll
drwg yn troi ar ei sawdl a selio'r drws ar gau.

Dyna pryd cofiodd Rhian am y laser bach oedd yn
edrych fel darn o emwaith. Aeth Rhian ati i weithio. O
fewn eiliadau roedd hi wedi torri drwy'r cyffion dur ac
roedd hi'n ceisio datgloi'r drws metel, ond roedd e'n
gwrthod symud. Roedd caead pren dros y ffenestr fach
ac roedd hi'n amhosibl ei hagar. Roedd yr ystafell yn
llenwi'n gyflym â dŵr. Doedd hi ddim yn edrych fel petai
modd iddi ddianc... nes iddi, mewn anobaith llwyr,
edrych i fyny, ac ynŵ, yn hollol annisgwyl, gwelodd drap-
dôr pitw bach – digon mawr i ferch un ar ddeg oed
wasgu drwyddo.

Roedd un broblem fach ar ôl... ocsigen... fe allai
fod yn anodd iddi anadlu... roedd ei hoffer plymio
bach ganddi, ond a fyddai'n rhoi digon o amser
iddi?

O'r diwedd, mae'n ddydd
Mercher, diwrnod mawr noson
diwrnod agored yr ysgol, ac mae popeth
yn hynod gyffrous a phopeth.
Mae pawb wedi gosod eu byrddau.

Mae'n bwrdd ni'n edrych yn
wych oherwydd ni sydd â'r darn gorau.
Llosgfynydd ydy e sydd wir yn mygu.
Dydyn ni ddim yn mynd i'w danio tan
y funud olaf fel bod pawb yn cael syrpreis.

Hefyd, dydyn ni ddim eisiau i'r mwg
ddod i ben cyn i'r beirniad ei weld e.

Mae Dylan wedi gwneud hofrennydd
bach ac mae Siriol a fi wedi gwneud modelau
bychain o Hywel Hedd a Rhian Rhisiart. Mae'r
Iarll ap Iorallt wedi eu rhoi i hongian ar raff dros ben
y llosgfynydd. Fi wnaeth yr Iarll ap Iorallt. Mae e
wedi i'w wneud o *papier-mâché*, sef papur newydd
gwlyb a glud. Mae'n cymryd tipyn o amser i'w wneud e.

Y darn anoddaf yw aros iddo sychu.
Ond mae'n werth yr ymdrech.
Mae Dylan wedi gwneud tâp o'r
chwerthiniad brawychus – sef chwerthiniad
Mrs Prydderch ond dyw hi ddim yn
gwybod hynny.

Mae Elis a Siwan Wyn wedi rhoi woc go-iawn yn eu harddangosfa nhw, sy'n eithaf tebyg i badell ffrio, ond nid dyna ydy e.

Dim ond er mwyn dangos mae e – does dim hawl gyda nhw i goginio go-iawn rhag ofn iddyn nhw achosi tân. Ond maen nhw wedi gwneud *sushi*, sef pysgodyn heb ei goginio, wedi'i lapio o gwmpas llwyaid o reis.

Ac maen nhw wedi gwneud arddangosfa o fananas, ond nid bananas ydyn nhw ond *plantain* ac maen nhw'n debycach i datws yn esgus bod yn fanana.

Ar ôl ychydig o edrych o gwmpas, mae pawb yn rhoi araith.

Dw i'n rhoi fy araith yn acen Rhian Rhisiart.

Sef acen y Gogledd.

Felly mae'n swnio wir yn dda.

Dw i'n dweud, "Mu ddaru mu ddysgu llawer iawn o ddarllen llyfrau Rhian Rhisiart."

Yna dw i'n disgrifio sut rhoddon ni'r cliwiau at

ei gilydd a bod un ac un yn gwneud dau, a'u bod nhw wedi dangos nad oedd y cwpan wedi'i ddwyn, ond bod rhywun wedi bod yn hollol anghofus, heb enwi enwau, ac yna'n beio'r person anghywir. Sydd weithiau'n digwydd os ydych chi'n neidio i gasgliadau.

Ac yna dw i'n dweud, "Ac mae'n anhygoel beth dach chi'n medru'i ddysgu o ddarllen unrhyw lyfrau dach chi'n eu mwynhau, a dydach chi ddim o angenrheidrwydd yn sylweddoli eich bod chi'n dysgu rhywbeth oherwydd eich bod chi mor brysur yn mwynhau darllen."

Wrth gwrs, mae pawb yn curo dwylo.

Mae Mrs Prydderch yn gwenu a syllu a churo dwylo ychydig bach yn ormod.

Ac mae Mr Preis yn dweud, "Gwaith da, ferched! Diolch i chi'ch dwy rydyn ni wedi cael y cwpan nôl mewn pryd. Dw i'n meddwl bod eich gwaith ditectif chi'n wych. Gallai Rhian Rhisiart ffeindio ei bod heb swydd!"

Sy'n garedig iawn, ond ddim yn wir achos dydy Rhian Rhisiart ddim yn berson go-iawn.

Ond trueni nad yw hi.

Dw i'n rhoi un o'r bathodynau Rhian Rhisiart wnes i gartref iddo.

Ac mae'n ei wisgo fe.

Arno mae, 'Bois bach, 'na ddiflas!


Beth bynnag, mae pawb yn meddwl bod ein haraith ni'n ofnadwy o ddifyr ac mae Galwa-fi'n-Awel yn dweud,

"Gwych, ferched!"

Mae mam Dylan yn dweud ei bod hi mor falch nad yw hi'n gorfod trafod ymddygiad gwael Dylan heno. Ac

mae Mr Preis yn dweud ei fod e hefyd.

Ac mae Mrs Prydderch yn gorfod dweud mor gwbl flin yw hi am yr anffawd.



Mae'n rhoi llond bocs o ffa jeli i Dylan i ddweud 'sori'.

Ar ôl i bawb roi eu haraith am y rhan o'u harddangosfa sy'n dysgu rhywbeth iddyn nhw, mae'r rhieni'n mynd i edrych ar y modelau a phethau.

Dw i'n clywed Mrs Prydderch yn dweud wrth Bleddyn Bifan a Bili Singh,

"Rydych chi wedi gwneud arddangosfa dwt iawn, Bleddyn a Bili, ond efallai y dylech chi gadw'n nes at y ffeithiau."

Mae'n dweud, "Doedd dim dinosoriaid ieir."

Mae hyn yn ffaith.

"Dyw'r esgyrn hyn ddim yn 65 miliwn o flynyddoedd oed."

Mae hyn hefyd yn ffaith.

Dw i'n sylwi nad yw Bleddyn a Bili yn cymryd sylw o Mrs Prydderch, a chyn gynted ag y mae'r rhieni'n dod, maen nhw'n adrodd yr holl sothach am sut daethon nhw o hyd i esgryn y dinosoriaid ieir yng ngardd Bleddyn.

Mae Efa Evans yn sâl yn y toiledau oherwydd iddi fwyta'r rhan fwyaf o gyffug Fictoraidd Anwen Tewdwr heb ofyn.

Maen nhw i fod ar gyfer yr ymwelwyr.

Mae hi'n rhy sâl i wneud ei harddangosfa bale gydag Enfys Francis.

Roedd Tomos Howells i fod i wneud y bale hefyd ond roedd rhyw salwch stumog anffodus arno fe yn y bore ac mae'n dweud nad yw e'n cael gwneud unrhyw beth fel troelli neu fe allai lewygu. Ond dyw hynny ddim yn ei rwystro rhag bwyta wyth brechdan wy.

Mae'n rhaid i Enfys wneud y perfformiad ar ei phen ei hun.

Dyw e ddim yn dda iawn achos dim ond am ryw

bythefnos efallai mae Enfys Francis wedi bod yn mynd i wersi bale a dyw hi ddim hyd yn oed yn gwybod y symudiadau.

Mae'n creu'r rhan fwyaf ohonyn nhw ei hun.

Mae Efa Evans yn gorfod mynd adre'n gynnar.

Mae Mrs Prydderch yn dweud, "Dw i'n rhyw amau, Efa Evans, dy fod ti'n cael dy haeddiant."

Mae llawer o bobl dw i'n eu nabod yn noson y diwrnod agored, hyd yn oed Prys, Fflos a Penri, a hefyd Dad.

Fel arfer mae Dad yn rhy brysur yn y swyddfa ac yn methu dianc oherwydd bod Mr Moses yn pwyso arno o hyd.

Mae Mr Moses yn fôs llym iawn a dyw e ddim yn hoffi i bobl gymryd amser o'r gwaith i'w mwynhau eu hunain.

Dyweddodd Dad wrth Miss Rowlands, ei ysgrifenyddes (na chei di ei galw'n ysgrifenyddes ond yn hytrach yn gynorthwyydd personol) am ddweud wrth Mr Moses ei fod e wedi



mynd adre'n gynmar am fod pwl
o

we'nw
yn
bwyd
arno.

Sy'n ddoniol oherwydd ar ôl iddo fwyta ychydig o *sushi* Elis a Siwan Wyn mae e wir yn teimlo'n eithaf simsan.

Dw i'n dangos ein harddangosfa i Dad ac mae Dylan yn cynnau'r llosgfynydd sy'n mygu a does dim o gwbl yn digwydd am bron i ryw funud. Mae'n gyffrous iawn.

Rydyn ni ar flaenau'n traed yn disgwyl.

Ac yna'n raddol mae pwff o fwg.

Mae'n edrych yn hollol realistig fel llosgfynydd go-iawn.

Mae'n arogl ychydig bach yn rhyfedd, ond mae llosgfynyddoedd yn gwneud mae'n siŵr.

Mae'n debyg y byddwn ni'n ennill yn bendant.

Yna mae llais Mr Preis yn dod ar yr uchelseinydd.

Mae'n dweud, "Wnewch chi ymuno â mi yn y neuadd ymgynnull, lle byddaf i'n cyhoeddi enillydd y wobr eleni am yr arddangosfa orau."

Mae e'n rhoi araith fer.


A dw i'n angofio canolbwyntio arni tua hanner

ffordd drwyddi oherwydd dw i'n gwylio corryn yn hongian, bron ar fin glanio ar ben Mr Preis.

Yn ffodus, dw i'n ailddechrau canolbwyntio mewn pryd i'w glywed e'n dweud, "Heb ymhelaethu ymhellach, yr enillydd yw ..."

Dw i'n cau fy llygaid ac yn aros i glywed fy enw ond pan dw i'n eu hagor nhw eto mae'r cwpan bach yn cael ei roi i Anwen Tewdwr oherwydd, mae Mr Preis yn dweud,

"Fe greodd hi arddangosfa lawn gwybodaeth, ac roedd actio cymaint am oes Fictoria mewn ychydig funudau'n uchelgeisiol iawn."



Ac, "Fyddai pawb ddim yn gallu bod yn
Frenhines Fictoria un funud ac yn Charles
Dickens y funud nesaf."

A hefyd, "Roedd gweddillion
cyffug oes Fictoria'n flasus
dros ben."


Rydyn ni wedi cael
siom yn hollol

nad ni enillodd
ac na chawson ni'r
cwpan bach,
na'r wobr ddirgel
chwaith.

O leiaf Anwen enillodd,
a dw i'n ei hoffi hi,
ac nid Efa Evans,
nad ydw i ddim yn ei hoffi.

Dyw'r wobr ddirgel ddim yn gymaint o
ddirgelwch wedi'r cyfan ac mae'n nodweddiadol
o beth fyddai Mrs Prydderch yn ei ddewis.

Enw'r wobr yw *Gwyddoniadur Mawr Bale*,



sydd ddim ond yn wobr dda
os ydych chi'n dwlu ar
ddawnsio bale, a
**dw i
ddim.**

Wrth i bawb
wylio Anwen yn
ennill,
mae llosgfynydd

Dylan Walters yn
dechrau llosgi ac mae'n
gwneud i'r taenellwyr dŵr
ddechrau diferu.

Mae Mrs Prydderch yn
mynd yn gwbl
benwan.

Mae hi'n dweud bod ei bag llaw
sy'n edrych fel swêd
**wedi'i
ddifetha.**

Rhaid dweud, dyw'r brechdanau wy i'r holl westeion ddim yn fwytadwy.

Yn ffodus, mae'r sosejys bach ar briciau'n iawn. Ar ôl i fy Wncwl Huw, sy'n ddyn tân, gyrraedd mae'n dweud,

"Dyw hi ddim wir yn ddoeth i gael unrhyw beth sy'n mygu mewn ystafell ddosbarth.

Ddim heb i rywun fod yn ei oruchwyllo fe."

Mae Mrs Prydderch yn cael ei galw i swyddfa Mr Preis.

Dw i'n credu ei bod hi'n cael pryd o dafod.

Dw i'n gobeithio ei bod hi.

Mae Dylan Walters yn cael ei anfon adre.

A phawb arall hefyd.

Dydd Iau

Dw i'n dihuno'n gynnar gynnar, er bod yr ysgol wedi cau achos bod dŵr yn yr ystafell ddosbarth a'n bod ni'n cael diwrnod bant, a bod Mr Griffiths yn gorfod glanhau'r cyfan â mop. Bydd yn rhaid iddo wisgo sgidiau glaw.

Dw i'n clywed Mr Griffiths yn dweud wrth Mrs Morgan,

"Gall Mrs Prydderch ddweud ta-ta wrth y teils carped yn ei chornel darllen."

Achos wrth gwrs maen nhw'n wlyb domen yn hollol.

A dw i'n clywed Mrs Morgan yn dweud, "A bod yn onest, dyna ei phroblem leiaf hi."

Dw i'n mynd i ffonio Mam-gu a dweud wrthi am bopeth sydd wedi bod yn digwydd cyn gynted ag y bydda i wedi gorffen y dudalen olaf un am byth yn fy llyfr, **RHIAN RHISIART SY'N RHEOLI.**


Dw i bron ddim eisiau ei orffen e, ond dw i'n hollol eisiau gwybod beth sy'n digwydd.

Dyna sy'n digwydd weithiau pan fyddi di'n darllen llyfr andros o dda –

rwyt ti eisiau ei ddarllen

e i gyd

e to.



Cerddodd Rhian Rhisiart o'r pencadlys a dringo i'r limo a oedd yn aros amdani.

Roedd wedi bod yn ddiwrnod a hanner – yn gyntaf achub ei harwr, Dafydd Dryslwyn, yna dianc rhag yr athrylith dieflig, yr larll ap Iorallt, gan ddifetha ei gynllun erchyll i feddiannu'r byd – fel arfer.

Roedd y pencadlys yn falch o waith Rhian a dwedon nhw wrthi am gymryd gweddill y diwrnod yn rhydd.

Dyna drueni na allai gyrraedd yr ysgol mewn pryd i ennill etholiad y dosbarth, ond dyna ni, roedd hi wedi bod yn brysur. Allai Rhian Rhisiart hyd yn oed ddim ei dal hi ym mhob man.

O leiaf fyddai Ffraid Beynon ddim yn cael ei hethol yn Llywydd. Roedd Mrs Dafis wedi trefnu hynny pan ddaliodd hi Ffraid yn pleidleisio drosti ei hun fwy nag unwaith.

Gan ddefnyddio bawd ei throed, trodd Rhian y teledu diweddaraf ymlaen.

Roedd hi'n amser gweld 'Heddlu Hurt', a'i ffrind newydd Dafydd Dryslwyn yn seren.

Roedd hi'n dipyn o gamp iddi fod wedi achub hoff

seren deledu pawb rhag cael ei ladd, a'r unig drueni oedd bod Rhian wedi anghofio gofyn i Dafydd am ei lofnod.

Yr eiliad honno, daeth llais ar intercom y car; Huws oedd yno.

Y cyfan a ddywedodd oedd,

"Gwaith da, 'merch i!"

Y Diwedd

Dw i newydd orffen yn hollol

y frawddeg hollol olaf un byth bythoedd
ac mae cloch ein drws ni'n canu.

Mae'n gwneud sŵn chwyrnu rhyfedd achos bod
angen newid y batri.

Dw i wir yn gobeithio nad Mrs Stephens na
Bleddyn Bifan sydd yno.

Dw i'n sbecian

drwy

dwll

y llythyrau

rhag ofn.

Dw i'n gallu

gweld

Penri'r

Pecinî

felly dw i'n agor y drws.

Yn ffodus mae e gyda Siriol Morris.

Mae e wir yn edrych yn hapus.


Mae Siriol wedi prynu coler newydd iddo.

Hefyd, mae fy anrheg i gyda hi o Rwsia.

All hi ddim aros imi ei hagor hi.

Mae hi'n neidio i fyny ac i lawr a Penri hefyd.

Fyddi di byth yn dyfalu, ond y llyfr mwyaf



newydd yn hollol yng nghasgliad Rhian Rhisiart
yw e. Mae Siriol yn dweud ei fod e'n

'boeth o'r wasg',

sy'n golygu

newydd ei

argraffu'n

hollol

fwy na thebyg

yr wythnos

diwethaf.



Ei enw yw **BYSIA I RWSIA, RHIAN!**

Mae ganddo glawr gwyn ac mae Rhian Rhisiart
yn gwisgo het flewog â llabedau dros ei chlustiau, a
dyw e ddim hyd yn oed yn y siopau eto, ac fe
gafodd Siriol e oddi wrth Haf E Madog Roberts ei
hun yn bersonol ac fe ysgrifennodd Haf E Madog
Roberts ynddo hyd yn oed mewn pen ffelt.

Mae'n dweud:

I Caryl Bloedyn
Dal ati i ddarllen, merch i!
Cariad oddi wrth
Haf E Madog Roberts

Sef yn union y math o beth fyddai Huws yn ei ddweud.

CASGLIAD RHIAN RHISIART

gan Haf E Madog Roberts

ROEDD MERCH O'R ENW RHIAN

RHED AR RAS, RHIAN

BLE YN Y BYD RWYT TI, RHIAN RHISIART?

WYT TI'N FERCH GO-IAWN, RHIAN RHISIART?

PWY ALL ACHUB RHIAN RHISIART?

RHIAN RHISIART YN ACHUB Y DYDD

RHIAN RHISIART SY'N RHEOLI

drosodd am
wybodaeth
hollol bwysig

I Sylv
Diolch yn fawr
Yn hollol

Diolch arbennig iawn i Francesca Dow, Anna Billson
a Megan Larkin a oedd bob un, wrth gws, yn wych.

Diolch yn fawr i Orchard Books am fod mor
ddigynnwrf (o leiaf yn allanol) a bob amser yn
garedig - hyd yn oed pan na allwn i feddwl am
rywbeth i'w ysgrifennu.

Diolch yn yr un modd i'm hasiant, Caroline Walsh,
am y rhesymau uchod.

Diolch i Mam am ysgrifen Haf E Madog Roberts.

Diolch i Fideo Shaw Farm a'r Gymdeithas Profi
Siocled am lawer o gyngor pwysig a thrafodaethau
hwyr y nos i'm hannog.

Diolch i Rococo Chocolates y cyfrannodd eu
siocledi hyfryd mewn modd amhrisiadwy at
ysgrifennu'r llyfr hwn.

Ac yn olaf, diolch i unrhyw un a fu mor garedig â
darllen y testun imi a dweud eu bod nhw'n ei
hoffi (hyd yn oed fymryn bach).



DREF WEN
CBAC
WJEC

Testun a lluniau © Lauren Child 2002
Y cyhoeddiad Cymraeg © 2005 Dref Wen Cyf.
Addasiad Cymraeg Elin Meek
Mae Lauren Child wedi datgan ei hawl
i gael ei hadnabod fel awdur ac arlunydd
y gwaith hwn yn unol â Deddf
Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988
Cyhoeddwyd gyntaf yn Saesneg 2002
gan Orchard Books dan y teitl
Utterly Me, Clarice Bean
Cyhoeddwyd yn y Gymraeg
2005 gan Wasg y Dref Wen,
28 Ffordd yr Eglwys,
Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd
CF14 2EA

Lauren Child

Mae Lauren Child yn treulio llawer o amser
yn syllu i'r gofod, a dyna sut meddyliodd hi
am Carys Blodyn. Pan oedd Lauren
Child yn iau, ei huchelgais oedd gwisgo



sbechol haul ar ei phen. Mae hi wedi cyflawni ei huchelgais.
Mae hi siwr o fod wedi ysgrifennu bron 11½ llyfr ...

Mae rhai ohonyn nhw
wedi ennill gwobrau.

Clarice Bean That's Me

Enillydd Gwobr Smarties

Canmoliaeth Uchel yng nghystadlwyaeth
Medal Kate Greenaway

I will not ever NEVER
eat a tomato

Enillydd Medal Kate Greenaway

that pesky rat

Enillydd Gwobr Smarties

What Planet Are You From
Clarice Bean?

Enillydd Gwobr Smarties

My Uncle is a Hunkle
says *Clarice Bean*

"Fy hoff lyfr" –
Lauren Child, awdur





"Llyfr hollol wych!" THE SUNDAY TIMES



Dw
i'n methu'n
hollol
ag eistedd
yn llonydd.

CBAC
WJEC

IDREF WEN

